# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 29 MEHEFIN 2022 am 2.00 y. p. | | WEDNESDAY, 29 JUNE, 2022 at 2:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Roberts

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Liz Wood

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 19 Ebrill, 2022
- 31 Mai, 2022

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2020/21 - ADRODDIAD Y CADEIRYDD** (Tudalennau 9 - 30)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor am 2021/22 (Adroddiad y Cadeirydd).

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 20221/22** (Tudalennau 31 - 54)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**5 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2022/23** (Tudalennau 55 - 74)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**6 ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO 2022 - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 75 - 90)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

**7 ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 91 - 108)

Cyflwyno diweddariad chwarterol Archwilio Allanol.

**8 CYNGOR SIR YNYS MÔN - CYMHORTHDAL BUDD-DAL TAI** (Tudalennau 109 - 120)

Cyflwyno'r canlynol –

- Llythyr gan Archwilio Cymru

- Ymateb y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151

**9 ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 121 - 126)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar y 19eg o Ebrill, 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-Gadeirydd) (yn Cadeirio)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Alun Roberts, Margaret M. Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dro Dro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Archwilio a Risg Mewnol (MP)<br>Prif Archwiliwr (NW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Gwilym O. Jones, Dylan Rees, Peter Rogers |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Bethan Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg), Andrew Lewis (Uwch Archwilydd Mewnol) |

---

Yn absenoldeb y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Rogers, nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd materion cysylltiad, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Mr Dilwyn Evans.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i Mr Dilwyn Evans ddatgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen ac nid oedd yn bresennol pan ystyriwyd yr eitem.

### 2. PENODI AELODAU LLEYG

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar ganlyniad y broses o recriwtio aelodau lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i sylw'r Pwyllgor.

*Wedi datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu ynghylch y mater hwn, gadawodd Mr Dilwyn Evans y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad arno. Etholwyd y Cynghorydd Alun Roberts i gadeirio'r eitem (a gymerwyd olaf yn nhrefn busnes).*

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno diwygiadau i'r drefn perfformiad a llywodraethu, gan gynnwys newidiadau i gyfansoddiad a thrafodion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n ei gwneud yn ofynnol i draean o aelodaeth y Pwyllgor fod yn aelodau lleyg a dwy ran o dair yn aelodau o'r Cyngor. Ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, mae hyn yn golygu y bydd angen pedwar aelod lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor. Mae Mr Dilwyn Evans, yr aelod lleyg presennol wedi nodi ei fod yn fodlon gwasanaethu am ail dymor o bum mlynedd y darperir ar ei gyfer yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor a Chyfansoddiad y Cyngor.

Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio a Risg at y broses recriwtio a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac a oedd yn cynnwys rhaglen hyrwyddo genedlaethol fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor. Arweiniodd y broses at y

Cyngor yn derbyn 13 o geisiadau. Roedd y rhain yn destun ymarfer llunio rhestr fer ar 19 Ionawr, 2022 a gynhaliwyd gan banel yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 a nododd bedwar ymgeisydd i'w cyfweld. Wedi hynny, cynhaliwyd y cyfweliadau ym mis Chwefror, 2022 gan banel a oedd yn cynnwys Gadeirydd y Pwyllgor, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr. Dewisodd y panel gyfweld y tri ymgeisydd a ganlyn i'w hystyried ar gyfer penodiad - Mr Michael Wilson, Llangefni, Ynys Môn Sharon Warnes, Pwllheli, Gwynedd a Mr William Parry, Rhosneigr, Ynys Môn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pam mai dim ond pedwar ymgeisydd allan o dri ar ddeg o ymgeiswyr a gynhyrchodd yr ymarfer llunio rhestr fer ar gyfer cyfweliad, eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod nifer o resymau pam y cafodd nifer o ymgeiswyr eu dileu yn ystod y cam llunio rhestr fer gan gynnwys ffurflenni cais anghyflawn a dim cysylltiad neu'n anghyfarwydd â'r awdurdod neu ardal yr awdurdod. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd wedi gwneud cais i bob cyngor yng Nghymru. Roedd y panel yn fodlon bod y broses o lunio rhestr fer wedi cynhyrchu pedwar ymgeisydd cryf y gellid ystyried tri ohonynt i'w penodi i wasanaethu fel aelodau lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ôl bodloni'r meini prawf ar gyfer y swydd.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo dewis a phenodi Michael Wilson, Sharon Warnes a William Parry yn aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac argymell eu penodi i'r Cyngor.**
- **Argymell i'r Cyngor fod Mr Dilwyn Evans yn parhau fel aelod lleyg am ail dymor o bum mlynedd.**

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4. HUNAN ASESIAD O ARFER DA Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn ymgorffori hunanasesiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o arfer da i sylw'r Pwyllgor.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr hunanasesiad o arfer da wedi'i gynnal ym mis Mawrth 2020 (wythnos cyn y cyfnod clo) gan banel yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor, aelod lleyg, y Pennaeth Archwilio a Risg a'r Prif Archwilydd. Oherwydd gweithrediad Strategaeth y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yn ystod yr argyfwng Covid, ni rannwyd yr hunanasesiad gyda'r Pwyllgor bryd hynny. Adnewyddwyd yr hunanasesiad ym mis Mawrth, 2022 gan y Pennaeth Archwilio a Risg i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gywir. Mae'n darparu adolygiad lefel uchel sy'n ymgorffori'r egwyddorion a nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA a'r canllawiau cysylltiedig. Mae canlyniad yr hunanasesiad hefyd wedi'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglen waith a chynlluniau hyfforddi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bydd yn llywio Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae defnyddio'r arfer a argymhellir yng nghyhoeddiad CIPFA wedi galluogi'r Pwyllgor i sefydlu ei fod yn darparu safon dda o berfformiad. Fodd bynnag, er mwyn gwella effeithiolrwydd, cynhelir gwerthusiadau pellach ac eang yn ystod 2022-23 fel y nodir isod -

- Bydd yr hunanasesiad ansoddol yn cael ei gynnal yn ystod 2022-23 er mwyn cael adborth ar berfformiad y Pwyllgor gyda'r rhai sy'n rhyngweithio â'r Pwyllgor neu'n



DRAFT

dibynnu ar ei waith, gan gynnwys uwch reolwyr ac aelodau'r Pwyllgor i werthuso a yw'n ychwanegu gwerth at y sefydliad a sut.
- Bydd hunanasesiad ansoddol yn cael ei gynnal yn ystod 2022/23 gydag aelodau unigol o'r Pwyllgor i asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain ac i nodi a oes unrhyw feysydd datblygu a hyfforddi.
- Dylai'r Cyngor archwilio a fyddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elwa o gael Swyddog Gwasanaethau Democrataidd wedi'i neilltuo iddo.

O ran argaeledd a darpariaeth cymorth gwasanaethau democrataidd pwrpasol i'r Pwyllgor a'r hyn y byddai'n ei olygu, eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai swyddog o'r fath yn darparu cymorth gweinyddol sy'n wahanol i gymorth cyfarfodydd e.e. cynnal hunanwerthusiad y Pwyllgor o berfformiad ac effeithiolrwydd sy'n gyfrifoldeb ar y Pennaeth Archwilio a Risg ar hyn o bryd. Byddai Swyddog Gwasanaethau Democrataidd penodedig yn gallu dod â mwy o ddatgysylltiad a gwrthrychedd i hyn ac ymarferion tebyg. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro y byddai'n trafod y gofynion gyda'r Pennaeth Archwilio a Risg ac y byddai'n adolygu'r sefyllfa bresennol a'r capasiti o fewn y Gwasanaethau Democrataidd i allu darparu'r gwasanaeth.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r hunanasesiad wedi'i adolygu a'i adnewyddu**
- **Cymeradwyo'r gwelliannau a awgrymwyd.**

## 5. CYLCH GORCHWYL DRAFFT Y PWYLLGOR LLWYODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg gan gynnwys cylch gorchwyl diwygiedig drafft ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dilyn newidiadau a wnaed o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i sylw'r Pwyllgor.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y prif newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor o ganlyniad i'r cyfrifoldebau newydd a roddwyd i'r Pwyllgor gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fel y'u crynhoir ym mharagraff 1.3 o'r adroddiad. Roedd y Cylch Gorchwyl drafft gyda'r newidiadau wedi'u tracio'n llawn ar gael yn Atodiad 1 a oedd ynghlwm i'r adroddiad. Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo ar 25 Ebrill, 2022 yn dilyn cais i'r Pwyllgor Gwaith argymell y newidiadau i'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor, fe wnaeth y Pennaeth Archwilio a Risg:

- Gadarnhau bod paragraff 3.4.8.2.4 yn parhau heb ei newid ac awgrymwyd y dylid ei aralleirio er mwyn gwella eglurder.
- Esbonio rhan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn asesiad perfformiad y panel y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei drefnu unwaith yn ystod y cylch etholiadol. Bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel rhan o'i gyfrifoldebau o dan y Ddeddf, adolygu ymateb y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith i adroddiad asesiad perfformiad y panel ac, os yw'n briodol, gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r ymateb drafft. Os na fydd y Cyngor yn gwneud y newid a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rhaid iddo nodi yn yr ymateb terfynol y rhesymau pam na wnaeth y newid.
- Bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (a rhai Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio mewn cynghorau eraill yng Nghymru) yn cael eu meincnodi yn erbyn Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a Datganiad Sefyllfa 2018. Mae'r newidiadau i'r Cylch Gorchwyl o ganlyniad i'r Ddeddf wedi cael eu gweithio trwyddynt gydag Ymgynghorydd Cyfreithiol a gomisiynwyd at y diben hwnnw. Cysylltwyd â CIPFA hefyd gan fod y newidiadau i gyfrifoldebau Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a ddaeth yn sgil y Ddeddf â goblygiadau i'r



DRAFFT

Canllawiau a gofynnwyd iddynt gyhoeddi canllawiau newydd i gynghorau yng Nghymru. Mae wedi nodi ei fod yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r gofyniad hwn ym mis Mai.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r diwygiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn.**

## 6. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr archwiliadau a gwblhawyd o 1 Ebrill, 2022 ers y diweddariad blaenorol i'r Pwyllgor ym mis Chwefror, 2022 i sylw'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu llwyth gwaith presennol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig wrth symud ymlaen.

Wrth gyflwyno'r diweddariad amlygodd y Pennaeth Archwilio a Risg –

- Bod tri darn o waith wedi eu cwblhau yn y cyfnod ac un adroddiad wedi ei gyhoeddi - Dilyniant Cyntaf o Daliadau - Cynnal a Chadw Cyflenwyr ac Adnabod Anfonebau Dyblyg ac Adennill Anfonebau Dyblyg a arweiniodd at raddfa Sicrwydd Cyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiad cyntaf o Daliadau - Cynnal a Chadw Cyflenwyr a Thaliadau ym mis Ionawr, 2021 at waith pellach yn cael ei wneud yn y maes hwn a chyhoeddwyd adroddiad ar Anfonebau Dyblyg ac Adennill Taliadau Dyblyg ym mis Mai, 2021. Arweiniodd y ddau adroddiad at gyfraddau Sicrwydd Cyfyngedig gyda chynlluniau gweithredu ar wahân wedi'u cytuno i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Gan fod nifer o'r risgiau a chamau gweithredu dilynol y cytunwyd arnynt yn gysylltiedig, cynhaliwyd adolygiad dilynol rhwng Ionawr a Mawrth, 2022. Daeth yr adolygiad dilynol i'r casgliad, er bod y timau Cyllid a Thaliadau wedi gwneud rhywfaint o waith i fynd i'r afael â'r risgiau a godwyd yn ystod yr archwiliad gwreiddiol, mae'r rhan fwyaf o'r camau y cytunwyd arnynt yn parhau heb eu cymryd. Oherwydd nifer y materion/risgiau sy'n weddill a'r diffyg cynnydd mewn meysydd allweddol, ni all Archwilio Mewnol gynyddu'r sgôr sicrwydd o gyfyngedig ar hyn o bryd. Bydd adolygiad dilynol pellach yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd, 2022.
- Y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd mewn adolygiad o "Adennill Dyledion y Cyngor ac Effaith Covid 19", adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig a gyflwynwyd i gyfarfod mis Rhagfyr o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mewn ymateb i'r adroddiad gwreiddiol, comisiynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y cwmni ymgynghori CIWB i weithio gyda'r Gwasanaeth i fynd i'r afael â'r materion / risgiau a godwyd. Mae Archwilio Mewnol yn fodlon â'r cynnydd hyd yma a bydd yn cynnal profion dilynol ffurfiol ym mis Hydref 2022 i sefydlu a yw'r holl faterion/risgiau a godwyd wedi'u lliniaru'n llawn.
- Gwaith ar y gweill fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 18 o'r adroddiad lle mae saith archwiliad ar y cam gwaith maes, tri ohonynt wedi'u hamlygu fel risg coch gweddilliol yn y Gofrestr Risg Strategol ac yn cael eu blaenoriaethu yn unol â hynny.
- Camau gweithredu heb eu cwblhau yn cynnwys 3 cham gweithredu Canolig yn gysylltiedig â'r archwiliad Proses Ymadawyr o fewn y Gwasanaeth Adnoddau.
- Capasiti a blaenoriaethau tymor byr/canolig a thymor hwy'r adain Archwilio Mewnol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor, eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y sefyllfa o ran Taliadau a chyfeiriodd at faterion staffio a recriwtio parhaus, pwysau llwyth gwaith, ailstrwythuro hirfaith a gwaith ychwanegol a grëwyd gan y Gwasanaethau yn methu â dilyn prosesau prynu cywir fel ffactorau sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig yn ogystal â'r amser a gymerir i fynd i'r afael yn llawn â'r materion/risgiau a nodwyd. Bydd creu swydd Rheolwr Busnes yn darparu adnoddau ychwanegol i adolygu/symleiddio prosesau system ac i hwyluso gwelliannau perfformiad ar draws y swyddogaeth Adnoddau; bydd recriwtio Swyddog Cyflogres a Thaliadau dan Hyfforddiant fel rhan o Raglen 'Dyfodol Môn' y Cyngor hefyd yn adnodd



DRAFFT

ychwanegol. Pan fydd y Rheolwr Busnes yn cael eu penodi byddant yn cael y dasg o gynorthwyo'r tîm Taliadau i fynd i'r afael â'r materion/risgiau sy'n weddill yn y maes hwn. Darparodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau/Swyddog Adran 151) sicrwydd y byddai'r materion/risgiau sy'n weddill - yn benodol y ddau fater/risg mawr yn cael sylw cyn y dyddiad cwblhau diwygiedig lle bo modd ond bod penodi Rheolwr Busnes yn allweddol i gyflymu'r gwaith a chyflawni'r dyddiad targed. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ymhellach y bydd yr adolygiad systemau yn cwmpasu'r broses Ymadawyr lle mae tri cham gweithredu hwyr yn ymwneud ag archwilio'r maes hwn. Mewn perthynas ag unrhyw faterion a godwyd gan Archwilio Allanol mewn perthynas â'r mater hwn, eglurodd y Swyddog Adran 151 y byddai Archwilio Allanol, wrth gynnal ei archwiliad o gyfrifon 2020/21 wedi cymryd sicrwydd o waith Archwilio Mewnol yn y maes hwn, o ystyried bod tua £130m yn cael ei dalu drwy'r system Credydwr yn flynyddol mae lefel y taliadau dyblyg a nodir yn llai nag 1% o'r taliadau a wneir ac felly gall ddisgyn yn is na lefel y perthnasedd a osodwyd gan Archwilio Allanol.

**Penderfynwyd nodi darpariaeth sicrwydd a blaenoriaethau Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

## 7. MATERION A RISGIAU SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar statws a manylion y risgiau sy'n weddill y mae Archwilio Mewnol wedi'u codi at sylw'r Pwyllgor.

Adroddodd y Prif Archwiliwr fel a ganlyn –

- Ar 31 Mawrth, 2022, roedd 62 o gamau gweithredu heb eu cyflawni yn cael eu holrhain yn y system 4action, gyda 17 ohonynt yn cael eu graddio'n sylweddol (ambr) a 45 yn ganolig (melyn mewn blaenoriaeth risg - Graff 1 yr adroddiad). Ceir diweddariad statws manwl o'r 17 o faterion/risgiau sylweddol sydd heb eu cyflawni yn Atodiad 1 yr adroddiad. Ni chodwyd unrhyw faterion/risgiau Coch yn ystod y flwyddyn ac nid oes unrhyw faterion/risgiau Coch yn weddill ar hyn o bryd.
- Mae tri cham gweithredu wedi cyrraedd eu dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau ac maent bellach yn hwyr – mae'r rhain i gyd yn effaith canolig ac yn ymwneud â'r Gyflogres. Mae Archwilio Mewnol yn ymwybodol o'r materion staffio a recriwtio parhaus o fewn y tîm Cyflogres yn ogystal â phwysau llwyth gwaith diwedd blwyddyn ychwanegol sydd wedi gwneud y gwaith o fynd i'r afael â'r materion/risgiau hyn yn heriol. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth i sicrhau yr eir i'r afael yn llwyddiannus â'r materion / risgiau.
- Mae Graff 3 yn dangos statws yr holl gamau gweithredu sy'n weddill (waeth beth fo'r dyddiad y mae'r rheolwyr yn cytuno i fynd i'r afael â hwy) ac mae'n cadarnhau bod y rheolwyr bellach wedi mynd i'r afael â 56% gyda 55% ohonynt wedi'u gwirio gan Archwilio Mewnol. Mae'r 1% sy'n weddill yn ymwneud ag archwiliad o Barhad Gwasanaeth TGCh (Gwe-rwydo) a fydd yn cael ei ddilyn yn ffurfiol ym mis Mai, 2022. Mae mwyafrif y camau gweithredu sydd heb eu cychwyn yn ymwneud â dau archwiliad a gwblhawyd yn ddiweddar mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Trwyddedu Meddalwedd; nid yw'r camau gweithredu a nodwyd yn ystod yr archwiliadau hyn wedi cyrraedd eu dyddiadau cwblhau disgwyliedig eto.
- Mae Graff 4 yn dangos statws yr holl gamau gweithredu sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed ac yn cadarnhau fod 96% wedi eu cwblhau lle'r oedd angen.
- Mae dyddiadau targed yn cael eu hymestyn lle gall y Gwasanaeth ddangos rheswm dilys dros yr estyniad.
- Mae'r 62 o gamau gweithredu sy'n weddill wedi'u gwasgaru rhwng 2017/18 a 2021/22 gyda'r mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Mae tri mater/risg nad yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â nhw'n llawn eto yn dyddio'n ôl i 2017/18. Mae'r rhain yn ymwneud â gwelliannau cyffredinol ac effeithlonrwydd ym mhrosesau Mân Ddyledwyr



DRAFT

y Cyngor a chânt eu graddio'n ganolig neu'n felyn o ran blaenoriaeth risg. Mae gwaith i fynd i'r afael â'r materion hyn yn rhan o'r prosiect ymgynghori sydd ar y gweill ar hyn o bryd o fewn y Tîm Incwm a'r ailstrwythuro arfaethedig ar yr adran Refeniw a Budd-daliadau ehangach yr adroddir arno yn yr adroddiad diweddaru Archwilio Mewnol. Nid oes unrhyw risgiau/materion gradd ambr sylweddol yn dyddio'n ôl ymhellach na 2019/20.
- Mae'r holl gamau gweithredu sy'n weddill yn cael eu dilyn gan Archwilio Mewnol i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

Mewn ymateb i bwynt a godwyd gan y Pwyllgor o ran a oes risg am fod modd ymestyn y dyddiadau cwblhau ar gyfer camau gweithredu, nad yw materion/risgiau a allai fod yn peri pryder mawr ac sydd i bob pwrpas yn hwyr yn cael eu nodi ac felly efallai na fyddant yn cael blaenoriaeth e.e. y ddau risg/mater mawr sy'n weddill mewn cysylltiad â Chynnal a Chadw a Thalu Cyflenwyr, ac Anfonebau Dyblyg y mae eu dyddiadau cwblhau wedi'u gwthio'n ôl i fis Tachwedd, 2022. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd, mewn perthynas â risgiau/materion sydd wedi'u graddio'n ambr, eu bod yn cael blaenoriaeth, a bod sylw dyledus yn cael ei roi i hyd yr estyniadau i'r dyddiadau cwblhau a bod gofyn am ddiweddariadau'n aml.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod materion/risgiau'n cael eu hasesu yn erbyn archwaeth risg y Cyngor fel nad yw risg/materion â sgôr melyn mewn blaenoriaeth risg yn cael eu blaenoriaethu yn rhinwedd y dynodiad hwnnw; ni fyddai llithriad yn yr achos hwnnw yn achosi pryder sylweddol. Fodd bynnag, lle mae llithriad yn cynyddu'r risg yna byddai'r raddfa flaenoriaeth risg yn cael ei newid a phe bai angen yn cael ei huwchraddio i Ambr. Cadarnhaodd fod y risgiau/materion sylweddol sy'n weddill y cyfeiriwyd atynt mewn perthynas â Chynnal a Chadw a Thalu Cyflenwyr, ac Anfonebau Dyblyg wedi'u cynnwys yn y data yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd nodi cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r Materion/Risgiau Archwilio Mewnol sy'n weddill.**

## 8. BLAEN RAGLEN WAITH DDANGOSOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg gan gynnwys y Flaen Raglen Waith Ddangosol ar gyfer 2022-23.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod cadarnhad o'r Rhaglen Waith yn aros am gyhoeddiad Calendr Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu ar ôl ystyried cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r diwygiadau dilynol i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

**Penderfynwyd derbyn fod Blaen Raglen Waith Ddangosol arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn bodloni cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor yn unol â Chylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor.**

*Yn dilyn gorffen busnes y cyfarfod, diolchodd Mr Dilwyn Evans, Is-Gadeirydd (a Chadeirydd y cyfarfod hwn) ar ei ran ei hun a'r Cadeirydd, y Cynghorydd Perer Rogers i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith a'u hymrwymiad dros y pum mlynedd diwethaf a diolchodd i'r holl Swyddogion a fu'n ymwneud â'r Pwyllgor am eu cefnogaeth a'u cyfraniad yn ystod y cyfnod hwnnw.*

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**



DRAFT

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL :** | Y Cynghorydd Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed W Jones, Euryn Morris, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Liz Wood.<br><br>Aelodau Lleyg – Mr Dilwyn Evans, Mr Michael Wilson. |
| **WRTH LAW :** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU :** | Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts.<br><br>Mrs Sharon Warnes – Aelod Lleyg |
| **HEFYD YN BRESENNOL :** | Mr Dafydd Roberts – Cadeirydd y Cyngor Sir |

---

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr Dilwyn Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**3 ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Euryn Morris yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Y CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 29 Mehefin 2022 / 13 Medi 2022 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021-22 – Adroddiad y Cadeirydd |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd** Mae gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adrodd i'r 'rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (y Cyngor Sir) asesiad o'i berfformiad a'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos sut y bu i'r Pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2021-22. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref a darparu sicrwydd annibynnol 'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd a llywodraethu ariannol.

1.2. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol, mae canllawiau CIPFA[1] yn nodi y dylai pwyllgorau archwilio adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu', ac o leiaf adrodd yn flynyddol am asesiad o'u perfformiad. Dylai adroddiad cyhoeddus blynyddol ddangos sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad hwnnw.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2021-22 cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar 13 Medi 2022.

[1] Mae Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2018) a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi barn CIPFA am rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.




# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2021-22 – ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA

Pennaeth Archwilio a Risg

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

Mehefin 2022

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# TABL CYNNWYS

CYFLWYNIAD ______ 3
CYFANSODDIAD A THREFNIADAU ______ 4
TREFNIADAU ATEBOLRWYDD ______ 5
LLYWODRAETHIANT ______ 7
RHEOLI TRYSORLYS ______ 8
GWERTH AM ARIAN ______ 9
FFRAMWAITH SICRWYDD ______ 10
RHEOLI RISG ______ 13
ATAL TWYLL A LLYGREDD ______ 14
ARCHWILIO MEWNOL ______ 15
ARCHWILIO ALLANOL ______ 17
ADRODDIADAU ARIANNOL ______ 18
ATODIAD A: AMLDER CYFARFODYDD A PHRESENOLDEB ______ 19
ATODIAD B: HYFFORDDIANT A FYNYCHWYD GAN YR AELODAU 2019-20 I 2021-22 _ 20

# CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethiant da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn.

Ei bwrpas yw rhoi sicrwydd annibynnol lawn i'r Cyngor ("*y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant*") ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd reoli fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu.

Mae'n cynnal trosolwg o weithgareddau archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, er mwyn helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ar waith. Y mae hefyd yn adolygu, asesu ac adrodd ar allu'r awdurdod i ddelio gyda chwynion yn effeithiol ac mae'n argymell gwelliannau yn y maes hwn. O 2022 ymlaen, bydd hefyd yn derbyn a chyflwyno sylwadau ar adroddiad hunanasesu'r Cyngor ac adroddiad y panel asesu perfformiad.

Mae gwahaniaeth glir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rôl y pwyllgorau sgriwtini. Rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw cael sicrwydd bod systemau rheoli mewnol y Cyngor yn gweithio a bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, mae canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)[1] yn nodi y dylai pwyllgorau archwilio adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith 'i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant', a chyflwyno adroddiad ar eu hasesiad o'u perfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai'r adroddiad cyhoeddus blynyddol ddangos sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau.

Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofyniad hwn drwy asesu gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2021-22 yn erbyn ei gylch gorchwyl, sydd wedi'i ymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor, fersiwn 2.70 a ddiweddarwyd ar 14 Chwefror 2022.

[1] Mae Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol a Heddluoedd (2018) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a chanllawiau cysylltiedig yn nodi barn CIPFA aynghylch rôl a swyddogaethau'r pwyllgor archwilio.

# CYFANSODDIAD A THREFNIADAU

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ei fusnes yn anwleidyddol ac wedi glynu wrth y rheolau ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol (3.4.8.2.1). Roedd y Pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig ac un aelod lleyg, a oedd ym mlwyddyn olaf ei dymor pum mlynedd. Fe wnaeth pob aelod ddatgan diddordeb lle bo'n briodol (3.4.8.2.2). Mae angen i'r Aelod Portffolio Cyllid, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor (3.4.8.2.2). Mynychodd y Deilydd Portffolio holl gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod 2021-22. Atodiad A. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod o'r Cyngor ac nid oedd yn aelod o grŵp a oedd yn rhan o Bwyllgor Gwaith y Cyngor (3.4.8.2.3). Mae swyddogion wedi mynychu cyfarfodydd ar gais aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.2.4).

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn (3.4.8.2.5). Cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol (cyfarfodydd rhithwir) ar naw achlysur, yn cynnwys tri chyfarfod arbennig i ystyried y Datganiad o Gyfrifon drafft a therfynol ar gyfer 2020-21 ac adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol (Adroddiad ISA 260). Mae'r aelodaeth a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2021-22 wedi bod yn dda (Atodiad A.)

Lle bo angen, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 wedi darparu cyngor, ac y mae wedi cael mynediad uniongyrchol a dilyffethair i'r Pwyllgor (3.4.8.2.6). Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi comisiynu gwaith yn uniongyrchol gan yr archwilwyr mewnol ar ffurf adroddiadau cynnydd ar archwiliadau unigol (3.4.8.2.7).

Ni fu'n rhaid i'r archwilwyr allanol na mewnol ofyn i'r Cadeirydd ystyried unrhyw fater y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor ym marn yr archwilwyr (3.4.8.2.8).

Ni ymunodd unrhyw aelod newydd â'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Derbyniodd yr aelodau presennol hyfforddiant parhaus (Atodiad B), adroddiadau ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil (3.4.8.2.9). Cynhelir hunanasesiad o wybodaeth a sgiliau'r Aelodau Pwyllgor newydd yn 2022..

Ym mis Ebrill 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r fersiwn drafft o'r cylch gorchwyl diwygiedig yn dilyn newidiadau yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi'r newidiadau i'w gylch gorchwyl cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn.

# TREFNIADAU ATEBOLRWYDD

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r cyngor llawn (*'i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant'*) ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y pwyllgor archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; a'i drefniadau adrodd ariannol, a'i swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol (3.4.8.3.1).

Y mae hefyd yn bodloni'r gofyniad i adrodd ar effeithiolrwydd y pwyllgor o ran cyflawni'i bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Yn ystod 2021-22, cynhaliwyd hunan asesiad o arfer da i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglen waith a chynlluniau hyfforddi'r pwyllgor archwilio, ac fel sail i'r adroddiad blynyddol hwn (3.4.8.3.2).

Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried canlyniadau'r hunanasesiad yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2022, gan ddefnyddio'r canllawiau a argymhellir gan CIPFA, a daeth i'r casgliad ei fod yn perfformio'n dda. Fodd bynnag, er mwyn gwella effeithiolrwydd cynhelir gwerthusiadau eang, pellach, yn ystod 2022-23 fel y nodir isod:

- Cynhelir hunanasesiad ansoddol yn ystod 2022-23 i gael adborth ar berfformiad y Pwyllgor gan y rheiny sy'n rhyngweithio â'r Pwyllgor neu sy'n dibynnu ar ei waith, yn cynnwys uwch reolwyr ac aelodau'r Pwyllgor, i bwyso a mesur ei gyfraniad i'r sefydliad.
- Cynhelir hunanasesiad ansoddol yn ystod 2022/23 gydag aelodau unigol o'r Pwyllgor i asesu eu heffeithiolrwydd a nodi unrhyw feysydd datblygu neu hyfforddiant.
- Bydd y Cyngor yn ystyried pa un ai a fyddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elwa o gael Swyddog Gwasanaethau Democrataidd penodedig.

Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â chael swyddog gwasanaethau democrataidd penodedig i gefnogi'r Pwyllgor, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r adolygiad a chymeradwyo'r gwelliannau a awgrymwyd.

Bu i'r Pwyllgor ystyried ei fusnes yn gyhoeddus, ac eithrio pan fu'n rhaid iddo gyfarfod yn breifat, lle bo hynny'n angenrheidiol, i ystyried eitemau o dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Yn ystod 2020-21, bu i'r Pwyllgor ystyried dau fater yn breifat:

- Diweddariad Rheoli Risg (Chwefror 2022)

- Adroddiad Seiber Ddiogelwch Blynyddol 2020-21 (Chwefror 2022)

Cyflwynwyd y Profion Budd y Cyhoedd priodol i'r Pwyllgor a chawsant eu derbyn ganddo.

Cafodd yr agenda ac adroddiadau eu cyhoeddi yn unol â'r amserlenni statudol ac roeddent ar gael i'w harchwilio (3.4.8.3.3).

# LLYWODRAETHIANT

Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried Cod Llywodraethiant Lleol y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2021. Nododd y Pwyllgor y byddai'n cael ei gyflwyno'n flynyddol i'w adolygu gan y Pwyllgor, er mwyn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethiant y Cyngor yn dal i fod yn gadarn ac yn addas i'r diben a'u bod yn cael eu gweithredu a'u defnyddio'n effeithiol ym mhob agwedd ar fusnes y Cyngor (3.4.8.4.1).

Ym mis Mehefin 2021, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu ac asesu trefniadau llywodraethiant corfforaethol y Cyngor yn ystod ei adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) drafft (3.4.8.4.2/3). Bu i'r Pwyllgor nodi gwelliannau o ran darllenadwyedd a gosodiad y Datganiad ond nododd hefyd nad yw casgliad ei hunanasesiad wedi newid ers nifer o flynyddoedd ac awgrymodd y dylid edrych ar y rhesymeg dros werthuso.

Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd holi a fu unrhyw gyfraniad allanol i'r Datganiad o ran cadarnhau bod yr hunanasesiad yn amcangyfrifiad teg a chywir o gyrhaeddiad a chydymffurfiad. Mewn ymateb i hyn, cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod y DLIB yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020-1 ac o'r herwydd, bydd y dystiolaeth y'i seiliwyd arno yn cael ei archwilio'n allanol.

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2021, yn dilyn gohirio'r cyfarfod ar 20 Hydref 2021, derbyniodd y Pwyllgor y DLIB terfynol a phenderfynodd gymeradwyo'r ddogfen ar gyfer 2020-21 a'i chyfeirio at y Cyngor llawn i'w chymeradwyo ac at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.

Ym mis Rhagfyr 2021, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod y Datganiad o Gyfrifon a'r DLIB ar gyfer 2020-21 wedi cael eu cymeradwyo'n llawn gan y Cyngor llawn ar 22 Tachwedd 221 a'u bod wedi cael eu llofnodi gan yr Archwilwyr Allanol heb unrhyw newidiadau pellach i'r fersiwn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 15 Tachwedd 2021(3.4.8.6.2).

Oherwydd y cylch Cyngor newydd, nid oedd adroddiad ar bartneriaethau sylweddol ar gael yn ystod 2021-22. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor yn adolygu'r trefniadau llywodraethiant a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu gydweithredu sylweddol drwy adolygu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a Phartneriaethau 2021-22 ym mis Rhagfyr 2022 (3.4.8.4.4).

# RHEOLI TRYSORLYS

Mae'r Cyngor llawn wedi enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys yn cael eu craffu'n effeithiol (3.4.8.5.1). Felly, mae'r Pwyllgor yn ymgymryd â rôl craffu yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, cyn eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn (3.4.8.5.2).

Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu'r Adroddiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020-21, a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ac yn amlygu perfformiad y Cyngor yn erbyn y dangosyddion darbodus a osodwyd ganddo.  Wrth ystyried yr adroddiad, roedd y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys awch i gael eglurder ynglŷn ag arferion benthyca cynghorau eraill, balansau sylweddol ysgolion, a'r cyfraddau llog a ragwelwyd gan ymgynghorydd y trysorlys. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a'i anfon ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith heb sylw pellach (3.4.8.5.1/2/3/4).

Ym mis Rhagfyr 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau rheoli trysorlys a'r sefyllfa bresennol.  Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â chyflymder y gwariant ar y rhaglen gyfalaf a'r angen i gyflymu gwariant yn sylweddol yn ystod ail hanner y flwyddyn er mwyn cyflawni'r rhaglen gyfalaf a gwireddu'r proffil gwariant, penderfynodd y Pwyllgor nodi a derbyn ar adolygiad canol blwyddyn heb sylw pellach (3.4.8.5.1/2/3/4).

Ym mis Chwefror 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022-23, a oedd yn cynnwys y Datganiad Buddsoddi Blynyddol, y Datganiad Polisi Blynyddol ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf, y Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys, y cynlluniau cyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus cysylltiedig. (3.8.4.5.1/4)

Yn dilyn trafodaeth ar y lefel uchel o ansicrwydd ynglŷn â'r rhagolygon economaidd oherwydd chwyddiant; y cynnydd mewn costau ynni; prinder cyflenwadau; materion yn ymwneud â Brexit sydd dal heb eu datrys; tensiynau yng Ngorllewin Ewrop ac yn San Steffan; pryderon ynglŷn ag adfer yr economi a'r posibilrwydd o newidiadau pellach o ganlyniad i Covid; y llithriad parhaus ar y rhaglen gyfalaf oherwydd cynlluniau nad oes modd bwrw ymlaen â hwy; a'r grantiau tai cymdeithasol sydd nawr ar gael i awdurdodau lleol, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi'r Datganiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022-23 a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb sylw pellach.

# GWERTH AM ARIAN

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau cadarn i wneud yn siŵr bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau, a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwerth gorau am arian (3.4.8.6.1).

Ym mis Mehefin 2021, adolygodd y Pwyllgor ddull cyffredinol y Cyngor tuag at sicrhau gwerth gorau am arian wrth adolygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft y Cyngor (3.4.8.6.2).

Ym mis Chwefror 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Grynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2021, a'r sicrwydd a gafwyd yn sgil yr asesiadau effeithiolrwydd o drefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwerth gorau am arian (3.4.8.6.3). Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor bod Archwilio Cymru wedi cwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gwrdd â dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i weld a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian ar gyfer yr adnoddau a ddefnyddir ganddo. I gwrdd â'r ddyletswydd hon, cwblhaodd Archwilio Cymru brosiectau penodol, gan ddibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg).

Wrth asesu pa un ai a ydi'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian, cyfeiriodd Archwilio Cymru at ei waith ar ddatganiadau ariannol 2020-21, sy'n nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor, a hefyd ei waith mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, sy'n nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi datgan bod prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r Cyngor wedi dangos cydarweinyddiaeth gadarn a chyson.

Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd bod y Cyngor wedi cwrdd â gweddill ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, bod ganddo ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, a'i fod yn darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb gyffredinol ar hyn o bryd.  O ran cynllunio'r gweithlu, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod y Cyngor, ar ôl wynebu heriau gyda gweithlu'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, yn canolbwyntio mwy ar gynllunio'r gweithlu a chyfleoedd i sicrhau manteision pellach ar draws pob gwasanaeth.

Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn asesiad yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â pha un ai a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian.

# FFRAMWAITH SICRWYDD

Mae cael trosolwg o fframwaith sicrwydd y Cyngor yn galluogi'r Pwyllgor i gymeradwyo'r strategaeth archwilio mewnol yn seiliedig ar risg drwy ganfod i ba raddau y mae'n ddibynnol ar waith archwilio mewnol ar gyfer ei ofynion sicrwydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ceisio cael eglurder ynglŷn â'r sicrwydd a roddir, gwneud yn siŵr bod cyfrifoldebau dros ddarparu sicrwydd yn cael eu dyrannu'n eglur ac osgoi dyblygu gwaith (3.4.8.7.1/2)

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i sicrwydd ynghylch rheoli risg, archwilio mewnol, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ogystal ag adroddiadau gan yr archwilwyr allanol.

Hefyd, yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau gan y darparwyr sicrwydd llinell gyntaf ac ail linell canlynol:

Ym mis Gorffennaf 2021, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Prif Swyddog Iechyd a Diogelwch, sef yr **Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Blynyddol**. Cafwyd trafodaeth ynghylch materion yn ymwneud â darparu a mynychu hyfforddiant; goblygiadau gweithio o bell a threulio mwy o amser o flaen sgrin cyfrifiadur ar iechyd a lles; a'r oedi o ran cydymffurfio â'r Hysbysiad Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) mewn perthynas â Syndrom Cryndod Llaw a Braich (HAVS). Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhelliad y dylai'r Cyngor ddilyn cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a rhoi Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith. Fodd bynnag, bu i'r Pwyllgor hefyd gydnabod yr oedi posib, oherwydd y sefyllfa barhaus mewn ymateb i Covid 19, wrth roi'r camau sydd yn y Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith neu'r posibilrwydd y bydd camau brys yn cael eu rhoi ar waith yn lle'r camau hyn er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â Covid 19.

Ym mis Medi 2021, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIPO) ar **lywodraethu gwybodaeth**. Roedd yn rhoi trosolwg gan yr SIRO o gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion cyfreithiol a chodau ymarfer perthnasol wrth drin gwybodaeth, ac yn darparu data allweddol ynghylch trefniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor yn cynnwys cyswllt â rheoleiddwyr allanol, achosion yn ymwneud â diogelwch ac achosion o dorri cyfrinachedd neu achosion a fu bron a digwydd, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a chwynion yn ystod y cyfnod.  Daeth yr SIRO i'r casgliad bod  digon o

dystiolaeth wedi'i gofnodi i ddangos bod trefniadau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth y Cyngor yn 'dda'. Trafododd y Pwyllgor sut y gellid gwella'r trefniadau hyn fel eu bod yn 'dda iawn' neu'n 'rhagorol'

Bu i'r Pwyllgor hefyd nodi nad yw'r Gwasanaeth Dysgu, ym mis Mawrth 2021, yn cydymffurfio mewn perthynas â gweithredu'r camau yn ymwneud â chwblhau'r archwiliad caniatâd a Chofnodi Gweithgareddau Prosesu (ROPA), a gofynnodd i'r Gwasanaeth Dysgu ddod ag adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i gadarnhau ei drefniadau ar gyfer gwblhau'r gwaith hwn. Yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2021, cadarnhaodd Rheolwr Busnes a Pherfformiad y Gwasanaeth Dysgu bod yr archwiliad caniatâd wedi cael ei gwblhau a'i anfon i'r Swyddog Diogelu Data, a bod rhywfaint o waith pellach wedi'i gwblhau mewn perthynas â ROPA i sicrhau bod yr holl weithdrefnau a phrosesau yn eu lle.

Hefyd, ym mis Medi 2021, darparodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro adroddiad ar faterion yn deilio o **Bolisi Pryderon a Chwynion** y Cyngor yn ystod 2020-21. Cafwyd trafodaeth ynghylch hawl aelodau sy'n destun cwyn i'r Ombwdsmon i gael mynediad at dystiolaeth; y nifer uchel o gwynion y gellir eu priodoli i dri gwasanaeth; p'un ai a yw'r diffyg ymateb yn gyffredin fel yr awgryma'r dystiolaeth anecdotaidd, yn ogystal â nodi bod y Cyngor wedi derbyn 464 o ganmoliaethau yn ystod yr un cyfnod. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a oedd yn rhoi lefel resymol o sicrwydd bod y Cyngor wedi ymdrin â chwynion yn effeithiol (3.4.8.1.2).

Ym mis Medi 2021, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a oedd yn nodi faint a oedd wedi cydymffurfio â pholisi'r Cyngor **mewn perthynas â derbyn polisïau** drwy system rheoli Porth Polisi'r Cyngor yn ystod y bedwaredd flwyddyn fonitro. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chael aelodau newydd o'r Cyngor i ymgyfarwyddo â pholisïau a'u derbyn; p'un ai a ydi'r broblem yn gysylltiedig â staff sydd heb fynediad i'r Porth Polisi wedi'i gydnabod ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a p'un ai y cysylltwyd ag awdurdodau lleol eraill ynglŷn â'r mater. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â derbyn polisïau ledled y Cyngor.

Ym mis Rhagfyr 2021, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y **Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynghylch y materion llywodraethu allweddol mewn perthynas ag ysgolion Ynys Môn** rhwng Gorffennaf 2021 a Thachwedd 2021. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r trefniadau sydd ar waith i weithredu'r camau nesáu ac i fonitro cydymffurfiaeth. Holodd y Pwyllgor ynghylch

goblygiadau a difrifoldeb y digwyddiad seiber mewn ysgolion uwchradd ym mis Mehefin 2021 a'r camau adferol a gymerwyd i ddiogelu'r data; y berthynas sy'n bodoli a lefel y ddealltwriaeth rhwng Hwb (y platfform dysgu ac addysgu yng Nghymru), ei gorff cyfrifol a Gwasanaeth TG y Cyngor; a p'un ai y gellir pennu dyddiad tybiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith llywodraethu gwybodaeth gydag ysgolion.  Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r camau nesaf a gynigwyd gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i alluogi ysgolion i weithredu'n llawn yn unol â'r gofynion o ran diogelu data.

Ym mis Chwefror 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad **Sicrwydd Blynyddol** y Rheolwr Risg ac Yswiriant. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r modd y mae'r Cyngor wedi rheoli ei weithgareddau yswiriant dros y pum mlynedd diwethaf a'r heriau wrth symud ymlaen. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â'r lefelau gormodedd  a p'un ai a ydynt yn ddigonol a p'un ai y defnyddiwyd gwasanaeth broceriaeth wrth dendro am gontract yswiriant y tro diwethaf, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.

Ym mis Chwefror 2022, derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad **Diogelwch TGCh Blynyddol.** Roedd yr adroddiad yn nodi'r bygythiadau seiber cyffredin a wynebir gan y Cyngor ac yn amlinellu'r mesurau lliniarol a gweithredol sydd ar waith i ganfod ac atal gweithgarwch maleisus. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.

# RHEOLI RISG

Ym mis Chwefror 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddiweddariad ar ddatblygu a gweithredu mesurau rheoli risg y Cyngor (3.4.8.8.1/2). Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i ganolbwyntio ar y risgiau o ran cyflawni'r blaenoriaethau strategol, cafodd cofrestr risgiau strategol newydd sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol ei datblygu yn lle'r hen gofrestr risgiau corfforaethol.

Roedd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi nodi pum prif risgiau coch/critigol gweddilliol o ran cyflawni amcanion corfforaethol a strategol y Cyngor. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r gofrestr risgiau strategol, sy'n symlach ac yn llai prysur na'r hen gofrestr risgiau corfforaethol ac sy'n gwneud y gofrestr yn haws i'w deall o ran y risgiau mwyaf sylweddol a wynebir gan y Cyngor.

Trafododd y Pwyllgor effeithiolrwydd y mesurau rheoli o ran lleihau'r tebygolrwydd ac effaith. Yn benodol, holodd y Pwyllgor ynghylch digonolrwydd y mesurau rheoli o ran moderneiddio ysgolion gan nodi nad oedd unrhyw fesurau arbennig ar waith mewn perthynas â'r cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol.

Bu i'r Pwyllgor hefyd nodi bod y matrics risgiau wedi cael ei adolygu.

Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r diwygiadau mewn perthynas â rheoli risg ac yn benodol y gofrestr risgiau strategol, a chadarnhau bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod y risgiau o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a'i fod yn rheoli'r risgiau hynny.

# ATAL TWYLL A LLYGREDD

Ym mis Gorffennaf 2021, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg **Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd** ar gyfer 2020-21 (3.4.8.9.4). Yn dilyn trafodaethau ynghylch twyll budd-daliadau tai a'r anawsterau a achosir pan fydd budd-daliadau tai yn cael eu talu'n uniongyrchol i denantiaid; sancsiynau a gorfodaeth yn gysylltiedig ag achosion o dwyll Treth y Cyngor a Budd-daliadau Tai; consesiynau parcio i'r anabl (bathodyn glas); cyhoeddusrwydd fel ffordd o atal twyll; creu swydd atal twyll; cynyddu argaeledd gwybodaeth a'i roi ar ffurf ddigidol er mwyn ei gwneud hi'n haws croesgyfeirio a gwirio data; rôl archwilwyr allanol o ran canfod twyll a phwysigrwydd addysgu staff ynglŷn â'r gwahanol fathau o dwyll, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

Ym mis Medi 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar effeithiolrwydd trefniadau **chwythu'r chwiban** y Cyngor (3.4.8.9.1) a chawsant amlinelliad o ddau achos o chwythu'r chwiban a dderbyniwyd gan y Cyngor. Yn dilyn cadarnhad gan y Swyddog Monitro bod y Cyngor wedi delio â'r ddau achos a bod y canlyniadau wedi cael eu bwydo'n ôl i'r achwynwyr, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

Ym mis Rhagfyr 2021, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar y **Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2021-24** (3.4.8.9.2/3). Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â chydnabod yr angen i gryfhau dull y Cyngor o gaffael a rheoli contractau fel maes sy'n agored iawn i dwyll; ceisiadau twyllodrus am Ddisgownt Person Sengl y Dreth Gyngor; twyll consesiynau parcio i'r anabl ac erlyniadau twyll grantiau; y cynnydd posib mewn ceisiadau grant twyllodrus o dan gynlluniau cymorth grant Covid-19 Llywodraeth Cymru; cyfeiriad yn yr adroddiad at lwgrwobrwyo a llygredd; ac erlyn twyllwyr, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad.

# ARCHWILIO MEWNOL

Mae'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor (3.4.8.10.1). Trwy adolygu'r Strategaeth Archwilio Mewnol, yr Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol, a'r Siarter Archwilio Mewnol a diweddariadau rheolaidd gan y Pennaeth Archwilio a Risg, mae'r Pwyllgor wedi goruchwylio annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynolrwydd yr adran archwilio mewnol, cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo'r defnydd effeithiol a wneir o archwiliadau mewnol o fewn fframwaith sicrwydd y Cyngor (3.4.8.10.2).

Ym mis Ebrill, derbyniodd y Pwyllgor y **Strategaeth Archwilio mewnol ar gyfer 2021-22** (3.4.8.10.5/6). Ar ôl trafod y risgiau mewn perthynas â'r lleihad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor a'r effaith bosib ar wasanaethau, blaenoriaethau a gwydnwch ariannol y Cyngor; premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi; y rhesymeg y tu ôl i ddynodi Clefyd Coed Ynn a Thlodi fel risgiau coch cynhenid; a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22 a chymeradwyo'r dull a'r blaenoriaethau a amlinellwyd er mwyn cyflawni anghenion sicrwydd y Cyngor.

Ym mis Mai 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r **Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2020-21**, yn cynnwys barn y Pennaeth Archwilio a Risg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu a rheolaeth risg y Cyngor, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith a oedd yn cefnogi'r farn honno (3.4.8.10.7/8/9). Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod hi o'r farn, fel 'prif weithredwr archwilio' Cyngor Sir Ynys Môn, bod fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad wedi bod yn ddigonol ac effeithiol yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021.

O fewn yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor nodi y cynhelir yr asesiad sicrhau ansawdd allanol nesaf ym mis Mehefin 2022 (3.4.8.10.14).

Cafwyd trafodaeth ynghylch prynu arbenigedd Archwilio TG i mewn gan ddarparwr allanol; hyfforddi a datblygu pobl ifanc; y pwysau ar yr adran archwilio mewnol yn ystod 2020-21 oherwydd prinder staff a'r galw ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig a gorfod addasu. Wrth nodi'r adroddiad, bu i'r Pwyllgor gydnabod gwaith caled yr adran Archwilio Mewnol yn ystod 2020-21 gan gydnabod ymdrechion y staff o ran cyflawni'r rhaglen waith archwilio mewnol

dan amgylchiadau heriol, yn ogystal â'u cyfraniad o ran cefnogi'r sefydliad ehangach mewn ymateb i'r argyfwng Covid-19.

Ym mis Rhagfyr 2021, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r **Siarter Archwilio Mewnol**, sy'n diffinio'r gweithgareddau, pwrpas a chyfrifoldebau o ran archwilio mewnol (3.4.8.10.3). Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo priodoldeb parhaus y Siarter Archwilio Mewnol a nodi'r mesurau diogelu a roddwyd ar waith i sicrhau na fydd unrhyw rolau a chyfrifoldebau ychwanegol a ymgymerir gan y Pennaeth Archwilio a Risg y tu allan i'r maes archwilio mewnol yn amharu ar ei hannibyniaeth a gwrthrychedd (3.4.8.10.13).

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar weithgareddau archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau arwyddocaol, meysydd pryder, ymateb rheolwyr a'r camau gweithredu a oedd ar y gweill o ganlyniad i waith archwilio mewnol (Gorffennaf, Medi, Rhagfyr 2021 a Chwefror ac Ebrill 2022). Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i grynodeb o adroddiadau archwilio penodol, yn cynnwys copïau llawn o'r adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig, ynghyd â'r cynlluniau gweithredu a gytunwyd gyda'r rheolwyr (3.4.8.10.10).

Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu'r camau gweithredu cytunedig drwy dderbyn dau adroddiad, un ym mis Medi 2021 a'r llall ym mis Ebrill 2022 (3.4.8.10.10/11). Ym mis Medi 2021, wrth drafod yr adroddiad, cadarnhaodd y Pwyllgor bod lefel y manylder yn yr adroddiad yn bodloni gofynion sicrwydd y Pwyllgor yn y maes hwn. Ym mis Ebrill 2022, yn dilyn trafodaeth ynghylch y risg o ymestyn dyddiadau targed y camau gweithredu, penderfynodd y Pwyllgor nodi cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r adael â'r Materion/Risgiau archwilio mewnol sydd angen mynd i'r afael â hwy.

Mae'r Pwyllgor a'r Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgysylltu'n effeithiol (3.4.8.10.16). Yn benodol, roedd Cadeirydd y Pwyllgor llywodraethu ac Archwilio bob amser ar gael i'r Pennaeth Archwilio a Risg, yn cynnwys y cyfle i gael cyfarfod preifat â'r Pwyllgor ar gais (3.4.8.10.17).

# ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol ac yn ystyried cwmpas a manylder y gwaith archwilio allanol. Ym mis Ebrill 2021, derbyniodd y Pwyllgor Gynllun gan Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, sy'n nodi'r gwaith arfaethedig mewn perthyna ag archwilio allanol, y rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer y flwyddyn ynghyd â'r rhaglen ar gyfer y gwaith ardystio grantiau a'r amserlen ar gyfer adroddiadau archwilio (3.4.8.11.1/3).

Ym mis Tachwedd 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i lythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad '*i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant*' (3.4.8.11.1/2). Yn dilyn trafodaeth ar y newidiadau i'r ffigyrau ar gyfer 2019-20; taliadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a symiau sy'n ddyledus ganddo; newidiadau i'r ffigyrau yn y cyfrifon drafft; eglurder ynghylch fformat y cyfrifon; a chais am gyfarfod rhwng Archwilio Cymru a'r Pwyllgor mewn perthynas â symleiddio cyfrifon; penderfynwyd nodi adroddiad yr archwilydd allanol ar ei archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2020-21.

Ym mis Chwefror 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2021, a oedd yn rhoi crynodeb o ganlyniadau pob darn o waith a gwblhawyd. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y pwyllgor ddiweddariadau chwarterol (ym mis Mehefin 2021, Rhagfyr 2021 a Chwefror 2022) ac adroddiad archwilio allanol, yn cynnwys asesiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor (Medi 2021); ac Adolygiad Cynnydd Bargen Twf y Gogledd (gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) (Medi 2021); Cynllunio Gweithlu (Medi 2021); Cyllid Myfyrwyr (Rhagfyr 2021); Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn (FChwefror2022); Trefniadau Atal Twyll (Chwefror 2022); ac Adfywio Canol Trefni yng Nghymru (Chwefror 2022).

Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu argymhellion yr archwilydd allanol a derbyn adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ym mis Rhagfyr 2021, a oedd yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i adroddiadau archwilio allanol ynglŷn â'r Cyngor ac adolygiadau cenedlaethol, a'u hargymhellion cysylltiedig (3.4.8.11.3).

Er bod cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gwrdd â'r archwilydd allanol yn breifat ac ar wahân, ni fanteisiwyd ar y cyfle yn ystod y flwyddyn hon (3.4.8.11.5).

# ADRODDIADAU ARIANNOL

Mae'r Pwyllgor yn adolygu a chraffu ar faterion ariannol y Cyngor, ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy (3.4.8.12.1).

Ym mis Mehefin 2021 a Thachwedd 2021, cafodd datganiadau ariannol drafft a therfynol yr awdurdod ar gyfer 2020-21 eu hadolygu gan y Pwyllgor yn y drefn honno, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, yn cynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd polisïau a thriniaethau cyfrifyddu a chydymffurfiaeth â hwy a meysydd dyfarnu sylweddol (3.4.8.12.2).

Hefyd ym mis Mehefin 2021, wrth ystyried y datganiadau ariannol drafft, trafododd y Pwyllgor lu o ffactorau, yn cynnwys y cynnydd yn y ffigwr ar gyfer Dyledwyr (cynnydd o £4m o'i gymharu â 2019-20) yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn cynnwys y Dreth Gyngor a rhenti; cyfradd casglu Treth Cyngor yr Awdurdod ar gyfer 2020-21 a ddisgynnodd o oddeutu 97% i 95.5%; p'un ai a fyddai'r ad-daliadau am ffioedd arholi a gafodd eu talu'n llawn neu'n rhannol gan ysgolion yn ymddangos ar fantolen 2020-21 neu 2021-22; a p'un ai a fyddai'r cynnydd yn rhwymedigaethau net y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn effeithio ar ddiogelwch y cynllun yn y dyfodol.

Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd drafod bwriad y Cyngor mewn perthynas â helpu pobl gydag anghenion tai brys gan fod y Cyfrif Refeniw Tai yn dangos bod stoc dai'r Cyngor wedi cynyddu tair uned yn unig o'i gymharu â 2019-20, a'r modd y cafodd yr adnoddau a glustnodwyd i'r diben hwn eu defnyddio os na chafodd yr arian ei wario ar gynyddu'r stoc dai. Trafododd y Pwyllgor yr angen i fonitro'r cyllid o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i sicrhau bod Cymru'n derbyn cyfran deg o'r arian; doethineb defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i ariannu gwariant refeniw; a chyfradd gyflawni'r Rhaglen a chyllid Cyfalaf ar gyfer 2020-21. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r prif ddatganiadau drafft anarchwiliedig ar gyfer 2020-21.

Ym mis Tachwedd, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad yr archwilydd allanol *'i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant'* ar faterion a oedd yn deillio o'r cyfrifon archwiliedig, a p'un ai y dylid eu dwyn i sylw'r Cyngor. (3.4.8.12.3). Yn dilyn trafodaeth (gweler Archwilio Allanol uchod), penderfynodd y Pwyllgor nodi'r Adroddiad Archwilio Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2020-21.

# ATODIAD A: AMLDER CYFARFODYDD A PHRESENOLDEB

| Aelodau | 25/05/21 | 23/06/21[2] | 20/07/21 | 21/09/21 | 21/10/21[3] | 15/11/21[2] | 09/12/21 | 08/02/22 | 19/04/22 | Cyfanswm cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyng Peter Rogers (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | Ymddiheuro | 7 / 9 |
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 9 / 9 |
| Cyng Jeff Evans | ✓ | ✓ | ✓ | Absennol | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | Absennol | 6 / 9 |
| Cyng John Griffith | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 9 / 9 |
| Cyng Richard Griffiths | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | Absennol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | 6 / 9 |
| Cyng Gwilym O. Jones | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | 5 / 9 |
| Cyng Dylan Rees | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | 8 / 9 |
| Cyng Alun Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | ✓ | 8 / 9 |
| Cyng Margaret M. Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | 7 / 9 |
| Cyng Robin Williams (Deilydd Portffolio Cyllid) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 9 / 9 |
| **Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor[4]** | 10 | 9 | 9 | 7 | 9 | 8 | 8 | 9 | 5 | |

Dychwelyd i Adran

[2] Cyfarfod arbennig i ystyried y Datganiad o Gyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn unig
[3] Cyfarfod arbennig i ystyried y Datganiad o Gyfrifol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol a'r Adroddiad Archwilio Allanol (ISA 260) yn unig
[4] Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, mae'r pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig ac un aelod lleyg. Ni fydd yr aelodau etholedig yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond rhaid i'r Deilydd Portffolio Cyllid fynychu pob cyfarfod, cyn belled ag y bo modd.

# ATODIAD B: HYFFORDDIANT A FYNYCHWYD GAN YR AELODAU 2019-20 I 2021-22

| | Rheoli'r Trysorlys | Diwrnod Datblygu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio (CIPFA) | Diogelu | GDPR | Materion Cynllunio | Trais Domestig ymysg Pobl Hyn | Prevent | Microsoft Teams | Deall Effaith Covid-19 (CIPFA) | Hyfforddiant Anffurfiol Zoom | Trefniadau Seiber (e-ddysgu) | Cod Ymddygiad ar gyfer yr Aelodau | Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyng. Peter Rogers (Cadeirydd) | 2019-20 | | | | | | | | | 2020-21 | | | 2019-20 |
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd) | 2019-20 | 2019-20 | | | | | 2019-20 | | 2020-21 | 2020-21 | 2019-20 | | |
| Cyng. Jeff Evans | | | | | | | | | | 2020-21 | | 2021-22 | |
| Cyng. John Griffith | 2019-20 | | 2019-20 | 2019-20 | 2019-20 | | | 2020-21 | | 2020-21 | 2019-20 | | 2019-20 |
| Cyng. Richard Griffiths | 2019-20 | | | | 2019-20 | 2019-20 | | 2020-21 | | 2020-21 | | | |
| Cyng. Gwilym O. Jones | 2019-20 | | | | 2019-20 | | | 2020-21 | | 2020-21 | | | 2021-22 |
| Cyng. Dylan Rees | 2019-20 | | 2019-20 | | 2019-20 | | | 2020-21 | | 2020-21 | | | 2019-20 |
| Cyng. Alun Roberts | 2019-20 | | 2019-20 | | | | | 2020-21 | | 2020-21 | | | 2021-22 |
| Cyng. Margaret M. Roberts | 2019-20 | | | | 2019-20 | | | 2020-21 | | 2020-21 | 2021-22 | | |

Dychwelyd i Adran

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 29 Mehefin 2022 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021-22 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Adroddiad Blynyddol Archwili Mewnol. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. O dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n ofynnol i'r 'prif swyddog archwilio' gyflwyno barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu. Yn ogystal, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn nodi fod rhaid iddo ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

1.2. Mae'r adroddiad hwn yn darparu Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22 i'r Pwyllgor, sy'n rhoi barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, trefniadau rheoli risg a rheoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'r 'farn' gyffredinol.



# ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2021-22


Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA

Pennaeth Archwilio a Risg

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru


Mehefin 2022

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS


RHAGAIR - Y CYD-DESTUN CYFREDOL ____ 3
CYFLWYNIAD ____ 4
BARN ARCHWILIO MEWNOL ____ 5
Barn y Pennaeth Archwilio a Risg 2021-22 ____ 5
SAIL FY MARN ____ 6
Sgôp ____ 6
Sicrwydd Trydedd Linell ____ 6
Archwilio Risgiau Strategol ____ 6
Gwaith Archwilio Arall ____ 7
Graddfeydd Sicrwydd Archwilio Mewnol a roddwyd yn ystod 2021-22 ____ 7
MATERION / RISGIAU A GODWYD ____ 9
Gweithredoedd sydd angen sylw a Gweithredoedd Hwyr ____ 10
Materion / Risgiau fesul Blwyddyn ____ 10
Materion / Risgiau a Godwyd ac y mae angen gweithredu arnynt yn 2021-22 ____ 11
Statws Materion / Risgiau ____ 12
MATERION SY'N BERTHNASOL I BARATOI'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL ____ 13
EIN PERFFORMIAD ____ 14
Ychwanegu Gwerth ____ 14
Mesurau Perfformiad ____ 15
Meincnodi ____ 16
HYFFORDDI A DATBLYGU ____ 17
CYDYMFFURFIO â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS ____ 18
HERIAU A CHYFLEOEDD I'R DYFODOL ____ 19
Atodiad A: Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd 2021-22 ____ 20
Atodiad B: Sicrwydd Trydedd Linell - Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol 2021-22 ____ 21
Atoodiad C: Sicrwydd Trydedd Linell - Gwaith Archwilio Mewnol Arall yn 2021-22 ____ 23

# RHAGAIR – Y CYD-DESTUN CYFREDOL

Parhaodd Covid-19 i effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yn 2021-22. Serch hynny, roedd llai o effaith ar y Tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg, wrth i staff a adleoliwyd i'r Tîm Grantiau Busnes Covid-19 ddychwelyd ac wrth i ddyletswyddau gweinyddol ychwanegol yn gysylltiedig â Covid-19 ddod i ben yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

Ym mis Rhagfyr 2020, roedd CIPFA[1] wedi cydnabod bod cyrff llywodraeth leol ymgodymu â heriau sylweddol a'u bod yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd am y ffordd orau o ddefnyddio'r staff a'r adnoddau ariannol oedd ar gael i gwrdd ag anghenion hanfodol. Yn y cyfamser, nid oedd unrhyw newid yn y disgwyliadau proffesiynol a rheoleiddio ar gyrff llywodraeth leol i sicrhau bod eu trefniadau archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Felly, cyhoeddodd CIPFA ganllawiau sector benodol ar gyfer archwilwyr mewnol oedd yn gweithio mewn, neu'n gweithio ar ran llywodraeth leol yn y DU, a oedd yn nodi'r gofynion allweddol ar gyfer cyrff llywodraeth leol yr argymhellwyd i benaethiaid archwilio mewnol, timau arweinyddiaeth a phwyllgorau archwilio eu dilyn er mwyn i'r sefydliad gwrdd â'u hanghenion sicrwydd yn ystod 2020-21 a 2021-22.

Ar ôl ymgynghori â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) er mwyn ystyried canllawiau CIPFA, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2021, a oedd yn nodi'r darpariaethau y byddai'n eu gwneud, er mwyn cael sicrwydd digonol yn ystod 2021-22 i gefnogi'r farn flynyddol, gan roi ystyriaeth i faterion capasiti.

Ystyriwyd y materion hyn gan y Pennaeth Archwilio a Risg yn y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2021.

[1] CIPFA yw'r Corff Gosod Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) ar gyfer llywodraeth leol ac mae'n gweithio gyda RIASS eraill yn y DU i fandadu'r PSIAS ar draws y sector cyhoeddus.

# CYFLWYNIAD

**Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n rhaid i'r 'prif swyddog archwilio', sef y Pennaeth Archwilio a Risg yn achos y Cyngor, gyflwyno barn archwilio mewnol y gall y sefydliad ei defnyddio i lywio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol[2].**

Mae'n rhaid i'r farn flynyddol gynnwys:

- Barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad
- Ddatgelu unrhyw amodau ar y farn honno ynghyd â'r rheswm am yr amod
- Cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio y mae'r farn yn deillio ohono, yn cynnwys y ddibyniaeth a roddwyd ar gyrff sicrwydd eraill
- Tynnu sylw at unrhyw faterion y mae'r prif weithredwr yn barnu eu bod yn arbennig o berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Crynodeb o berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol yn erbyn ei fesurau perfformiad
- Sylwadau ar gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a rhannu canlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd Archwilio Mewnol.

[2] O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n rhaid adrodd ar adolygiad o drefniadau llywodraethu yn fewnol, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn achos y Cyngor, ac yn allanol yn y cyfrifon a gyhoeddir. Adolygiad blynyddol o systemau rheoli mewnol yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) ac mae'n casglu sicrwydd o wahanol ffynonellau i'w ategu. Mae Archwilio Mewnol yn gyfrannwr allweddol ac mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu i ategu'r DLIB.

# BARN ARCHWILIO MEWNOL

## Barn y Pennaeth Archwilio a Risg 2021-22

Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, barn Pennaeth Archwilio a Risg Cyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

Er nad wyf yn ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd i sicrhau fod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.

Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.

# SAIL FY MARN

## Sgôp

Rydw i wedi cyrraedd fy marn trwy ystyried y gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei drafod ymhellach isod. Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd yn ymwneud â'r Cyngor. Mae'n deillio'n sylweddol o bennu strategaeth seiliedig ar risg, y mae rheolwyr wedi cyfrannu ati ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2021. Dylai ddarparu lefel resymol o sicrwydd, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cynhenid isod a'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2021 ac a drafodwyd yn y Rhagair - Cyd-destun Cyfredol uchod.

### Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw wrth i ni gyflawni ein gwaith a'n gweithgareddau o fewn y Cyngor a godir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellir eu gwneud. Ni ddylid ystyried chwaith bod yr adroddiad hwn, nac ein gwaith, yn cymryd lle cyfrifoldebau rheolwyr i roi arferion rheoli mewnol cadarn ar waith. Pwysleisiwn mai cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau system gadarn o reolaethau mewnol ac ni ddylid dibynnu ar ein gwaith i nodi'r holl gryfderau a gwendidau a all fodoli.

## Sicrwydd Trydedd Linell[3]

Yr allwedd i fedru cael sicrwydd digonol fel sail i'r farn oedd rhoi ystyriaeth i adolygiadau archwilio mewnol o'r risgiau strategol a gwaith archwilio arall, a'r graddfeydd sicrwydd a ddarparwyd:

### Archwilio Risgiau Strategol

Yn ystod 2021-22, yn dilyn cynnal adolygiad cynhwysfawr o risgiau'r Cyngor wrth gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol, barnwyd bod 13 ohonynt â gradd risg weddillol coch neu ambr ac fe'u cofnodwyd yn y gofrestr risg strategol. Rydym yn anelu i archwilio 60% o risgiau coch

[3] Mae diffiniadau o raddfeydd sicrwydd oedd ar waith yn 2021-22 i'w gweld yn Atodiad A

ac ambr dros gylch dwy flynedd. Adolygom 10 (83%[4]) o'r risgiau hyn yn ystod cyfnod o 24 mis (20% yn 2020-21). (Manylion yn Atodiad B).

Roeddem yn gallu darparu sicrwydd **'Rhesymol'** bod y Cyngor yn rheoli pob risg a adolygwyd gennym yn effeithiol, namyn un. Dim ond sicrwydd **'Cyfyngedig'** yr oeddem yn gallu ei roi ar gyfer un archwiliad (Parhad Gwasanaeth TG - Gwe-rwydo), ac rydym yn ei ddilyn i fyny ar hyn o bryd.


## Gwaith Archwilio Arall

Adolygom feysydd allweddol eraill o weithgareddau'r Cyngor hefyd, yn cynnwys meysydd yr oedd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r UDA wedi codi pryderon yn eu cylch (Manylion yn Atodiad C).

O'r 17 archwiliad o'r math hwn a gynhaliwyd gennym yn 2021-22, roeddem yn gallu darparu sicrwydd **'Sylweddol'** ar gyfer un ohonynt (dim un yn 2020-21), sicrwydd **'Rhesymol'** ar gyfer wyth (naw yn 2020-21) a chwe sicrwydd **'Cyfyngedig'** (pedwar yn 2020-21). Ni roddwyd graddfa sicrwydd i ddau ymchwiliad.

## Graddfeydd Sicrwydd Archwilio Mewnol a roddwyd yn ystod 2021-22

Yn gyffredinol, roeddem yn medru darparu sicrwydd **'Rhesymol'** neu well ar gyfer 67% (78% yn 2020-21) o'r archwiliadau sicrwydd a gynhaliwyd gennym yn 2021-22.




[4] Nid oeddem yn gallu adolygu un risg strategol ar gais y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a phobl ifanc yn dilyn seibiant yn y rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

Derbyniodd chwe archwiliad (25%) sicrwydd **'Cyfyngedig'** yn ystod y flwyddyn, o gymharu â phump (22%) yn 2020-21. Yn unol â'n protocol, rydym yn ailymweld yn ffurfiol â'r holl 'Faterion/Risgiau' a godwyd mewn adroddiadau sicrwydd **'Cyfyngedig'**, ar derfyn y cyfnod gweithredu, er mwyn sicrhau eu bod yn cael sylw effeithiol.

Fe wnaethom ailedrych yn ffurfiol â'r saith adroddiad â gradd sicrwydd **'Cyfyngedig'**. Yn dilyn ein hailymweliad, roeddem yn gallu codi'r sicrwydd i **'Rhesymol'** mewn tri o'r adroddiadau a byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y pedwar sy'n weddill.

Ni roddwyd **'Dim'** sicrwydd i unrhyw archwiliad ac ni chodwyd unrhyw 'faterion/risgiau' 'Critigol' (coch) yn ystod y flwyddyn.

Ble nodwyd 'Materion/Risgiau' gennym, derbyniodd rheolwyr pob un ohonynt. Cafodd y 'Materion/Risgiau' oedd yn weddill eu monitro trwy eu cofnodi yn ein system dracio gweithredoedd a drafodir ymhellach yn yr adran a ganlyn.

# MATERION / RISGIAU A GODWYD

Rydym wedi bod yn defnyddio fersiwn newydd wedi'i huwchraddio o system dracio gweithredoedd y Cyngor, 4action, am ddwy flynedd bellach. Rydym yn falch o adrodd bod y system wedi'i diweddaru yn parhau i fod yn llwyddiannus o ran hwyluso ein prosesau dilyn i fyny a thracio gweithredoedd archwilio mewnol.


Rydym yn parhau i ddatblygu a mireinio ein dangosfwrdd, sy'n rhoi darlun amser real o berfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n caniatáu i ni dracio ac adrodd ar y wybodaeth hon yn effeithiol. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus ac felly rydym yn gallu cael diweddariadau gan reolwyr ynglŷn â chynnydd wrth fynd i'r afael â nhw.


Rydym hefyd wedi datblygu gwasanaeth dangosfwrdd pwrpasol i gynorthwyo Penaethiaid Gwasanaeth a'u timau rheoli i fonitro a darparu diweddariadau ar eu gweithredoedd. Ar hyn o bryd rydym yn treialu hyn gyda'r gwasanaeth Adnoddau. Yn anffodus, mae'r argyfwng Covid-19 wedi cyfyngu ar ein gallu i'w gyflwyno i'r holl wasanaethau a darparu hyfforddiant a chefnogaeth fel bod rheolwyr yn gallu defnyddio'r swyddogaethau'n llawn. Byddwn yn ailgydio yn y gwaith hwn yn ystod 2022-23.

Dengys y graffiau a ganlyn y gweithredoedd sydd angen sylw ar 31 Mawrth 2022. Yn anorfod, mae effaith yr argyfwng Covid-19 a'r cyfnod adfer sy'n parhau ar rai gwasanaethau wedi effeithio ar eu gallu i fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Fodd bynnag, dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion/risgiau 'Critigol' (coch) yn ystod y flwyddyn ac nid oes unrhyw 'faterion/risgiau' 'Critigol' (coch) angen sylw ar hyn o bryd.

## Gweithredoedd sydd angen sylw a Gweithredoedd Hwyr





Ar 31 Mawrth 2022, roeddem yn monitro 62 gweithred trwy ein system dracio (60 ar 31 Mawrth 2021). O'r rhain, roedd 17 (20 yn 2020-21) yn 'sylweddol' (ambr) a 45 (40 yn 2020-21) yn 'cymedrol' (melyn) o ran blaenoriaeth risg, fel y dangosir ar y chwith uchod.

Rydym yn monitro pob gweithred ac yn cysylltu â rheolwyr yn eu cylch ar derfyn y cyfnod gweithredu i sicrhau bod rheolwyr wedi rhoi sylw effeithiol iddynt. Ar 31 Mawrth 2022, roedd tair gweithred (dau yn 2020-21) wedi cyrraedd eu dyddiad targed ac yn 'hwyr' (ar y dde uchod).

## Materion / Risgiau fesul Blwyddyn





O'r 62 gweithredu (60 yn 2020-21) yr ydym yn eu monitro, roeddent wedi eu codi rhwng 2017-18 a 2021-22. Nid oes unrhyw weithredoedd cyn 2017-18 yn parhau i fod angen sylw.

Er bod y graff yn dangos bod y mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae'n amlygu nifer fechan o hen weithredoedd nad yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â nhw yn llawn eto.

Dylid nod bod y naw[5] gweithred hyn â gradd 'gymedrol' (melyn) o ran blaenoriaeth risg. Serch hynny, byddwn yn parhau i ddilyn i fyny'r holl weithredoedd i sicrhau bod rheolwyr yn mynd i'r afael â'r holl risgiau yn effeithiol.

## Materion / Risgiau a Godwyd ac y mae angen gweithredu arnynt yn 2021-22








Yn ystod 2021-22, codwyd 31 (21 yn 2020-21) o 'faterion/risgiau' yr oedd angen i reolwyr roi sylw iddynt. O'r rhain, roedd naw (saith yn 2020-21) yn 'sylweddol' (ambr) a 22 (14 yn 2020-21) yn 'gymedrol' (melyn).

Roedd pump o'r gweithredoedd a godwyd angen eu cwblhau yn 2021-22, ac roedd rheolwyr wedi rhoi sylw i bob un o'r pump (chwech yn 2020-21) cyn 31 Mawrth 2022. Mae hyn yn berfformiad 100% yn y maes hwn (100% yn 2020-21).

[5] Dyledwyr Amrywiol (3); Diogelwch Seibr (1); Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion (5)

## Statws Materion / Risgiau




Dengys y graff uchod statws yr holl weithredoedd yr oedd angen eu rhoi ar waith erbyn 31 Mawrth 2022, h.y. a ydynt ‘ar y gweill’, ‘heb gychwyn’ neu ‘wedi cau’. Rydym yn gwirio’r holl weithredoedd a oedd ‘wedi cau’ i sicrhau ein bod yn fodlon fod y camau a gymerwyd gan reolwyr wedi mynd i’r afael â’r risg a nodwyd yn wreiddiol.

Mae rheolwyr wedi mynd i’r afael â 94% (90% yn 2020-21) o’r ‘Materion/Risgiau’ a godwyd, ac a oedd wedi cyrraedd terfyn y cyfnod gweithredu, ac mae gwaith ar y gweill ar gyfer 3% ac nid yw gwaith wedi dechrau eto ar gyfer 3%.

O bryd i’w gilydd byddwn yn ymestyn y dyddiadau targed ar gyfer rhai gweithredoedd, ond dim ond os gall y gwasanaeth ddangos bod rheswm dilys dros yr estyniad, e.e. daw’n amlwg nad yw’r dyddiad targed yn gyflawnadwy, ac mae angen i reolwyr gyflawni llawer iawn mwy o waith i fynd i’r afael â’r mater/risg.

Oherwydd yr argyfwng Covid-19, rydym wedi ymestyn nifer o ddyddiadau cau ar gyfer gwasanaethau os yw’n amlwg mai ymateb i’r pandemig oedd y flaenoriaeth iddynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

# MATERION SY'N BERTHNASOL I BARATOI'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

**Nid oes unrhyw faterion sydd â risg neu effaith sylweddol uchel sy'n cyfiawnhau eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

Yn ystod 2021-22, rydym wedi gweld bod uwch reolwyr yn y Cyngor yn gefnogol ac yn ymatebol i'r materion a godwyd gennym. Mae gennym berthynas dda â rheolwyr; maent yn agored am y meysydd y maent yn eu hystyried fel rhai lle gallai problemau godi ac maent yn derbyn canlyniadau ein gwaith fel cyfle i wneud gwelliannau.

Cawsom ein comisiynu hefyd i wneud gwaith ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ar gais rheolwyr, sy'n arwydd cryf bod rheolwyr yn fodlon ymgysylltu â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i sefydlu amgylchedd da ar gyfer rheoli risg.

Cynhaliwyd adolygiad hunanasesu o arfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2020 gan banel a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, aelod lleyg, y Pennaeth Archwilio a Risg a'r Prif Archwilydd ac fe'i diweddarwyd ym mis Mawrth 2020 gan y Pennaeth Archwilio a Risg. Roedd yn darparu adolygiad lefel uchel a oedd yn ymgorffori'r egwyddorion allweddol a nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) a'r canllawiau cysylltiedig.

Daeth yr hunanasesiad i'r casgliad fod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio lefel uchel o berfformiad yn erbyn yr egwyddorion arfer da. Mae hyn yn arwydd bod sylfaen gadarn i'r Pwyllgor a bod ganddo aelodau gwybodus. Mae'r rhain yn ffactorau hanfodol wrth ddatblygu pwyllgor archwilio effeithiol. Serch hynny, nodwyd rhai gwelliannau ac fe'u defnyddiwyd i gynorthwyo i gynllunio rhaglen waith a chynlluniau hyfforddi'r Pwyllgor Llywodraethu ac archwilio.

# EIN PERFFORMIAD

Wrth gyflawni strategaeth archwilio seiliedig ar risg, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg, gyda chymorth yr UDA, wedi gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau archwilio mewnol oedd ar gael yn ystod y pandemig, yn cynnwys:

- symleiddio adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- culhau ffocws sgôp archwiliadau er mwyn archwilio risgiau allweddol yn unig
- prynu arbenigedd archwilio gan ddarparwr allanol (Archwiliad TG gan Gyngor Sir Salford) ac arbenigwyr pwnc (gwiriad iechyd Newid Hinsawdd gan Zurich Municipal)
- arfarnu'r holl geisiadau am waith ymgynghorol a blaenoriaethu gwaith sicrwydd a gwaith ymgynghorol sy'n cefnogi'r farn flynyddol
- cyfathrebu mwy gyda gwasanaethau er mwyn cynorthwyo i sicrhau cydweithrediad da ac osgoi oedi diangen wrth gynnal archwiliadau - defnyddiwyd technoleg yn well, megis Microsoft Teams
- parhau i fabwysiadu dull 'archwilio ystwyth' er mwyn osgoi oedi a chael gwared â rhwystrau sy'n atal cynnydd.

## Ychwanegu Gwerth

Er i'r pandemig gyfyngu ar gyfleoedd, hyd yn oed yn y cyd-destun heriol hwn, rydym wedi ceisio ychwanegu gwerth lle bynnag y bo'n bosib trwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi parhau i gefnogi rheolwyr ar draws y Cyngor trwy ddarparu hyfforddiant a chyngor a chaffael adnoddau allanol i ddarparu sicrwydd, megis hyfforddiant ac archwiliadau yn ymwneud â Chronfeydd Answyddogol Ysgolion.

Yn ogystal, rydym wedi parhau i gefnogi cyfoedion yn y rhanbarth, yn genedlaethol ar draws Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, trwy rannu arfer dda a rhaglenni gwaith, ynghyd â meysydd lle mae risgiau'n dod i'r amlwg.

Ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), datblygodd y Pennaeth Archwilio a Risg becyn e-ddysgu archwilio, risg a llywodraethu cenedlaethol ar gyfer aelodau a fydd yn cael ei gyflwyno eleni.

## Mesurau Perfformiad

Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith i sicrhau gwelliant parhaus ein gwasanaeth archwilio mewnol. Ym mis Ebrill 2021, cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar nifer o dargedau perfformiad yn y Strategaeth ar gyfer 2021-22, a gellir eu gweld isod.

| Dangosydd Perfformiad | Perfformiad 2018-19 | Perfformiad 2019-20 | Perfformiad 2020-21 | Targed 2021-22 | Perfformiad 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol a archwiliwyd (dros gyfnod treigl o 24 mis) Atodiad B | 29% | 50% | 28% | **60%** | **83%** |
| Archwiliadau a gwblhawyd mewn chwe mis | Heb ei fesur | 93% | 85% | **100%** | **76%** |
| Ymateb cleientiaid yn 'foddhaol' neu well | 100% | 100% | 100% | **100%** | **100%** |
| Nifer staff | 4.0 CALI | 4.0 CALI | 2.6 CALI[6] | **5.0 CALI** | **3.1 CALI[7]** |

Rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn hanner ein targedau, gyda dau o'r pedwar dangosydd yn cyrraedd eu targed. Yn holl bwysig, rydym wedi cyflawni ein targed o adolygu 60% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y Gofrestr Risg Strategol yn rhwydd, a rhydd hynny sicrwydd digonol i ganiatáu'r Pennaeth Archwilio a Risg ddarparu Barn Archwilio Blynyddol. Byddwn yn codi'r targed hwn ar gyfer 2022/23.

Er gwaethaf llwyddiant ymarfer recriwtio ddiwedd 2021, unwaith eto rydym wedi methu â chyrraedd ein targed o gadw pum aelod o staff cyfystyr ag amser llawn (CALI), oherwydd

[6] 0.7 CALI cefnogi Covid-19; 0.4 CALI wedi'i golli oherwydd absenoldeb hirdymor; 1.7 CALI wedi'i golli oherwydd swyddi gwag/gweithio'n hyblyg
[7] 0.5 CALI wedi'i golli oherwydd absenoldeb hirdymor; 1.2 CALI wedi'i golli oherwydd swyddi gwag/gweithio'n hyblyg

secondiad ac absenoldeb hirdymor. Er bod y secondiad yn parhau, mae'r absenoldeb hirdymor wedi'i ddatrys ac rydym yn recriwtio Uwch Archwilydd i ymuno â'r tîm ar hyn o bryd.

Ni chwblhawyd pum archwiliad gennym o fewn y targed o chwe mis. Y rheswm am hyn oedd absenoldeb hirdymor, ymchwiliad cymhleth a blaenoriaethu gwaith ar gais y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151. Serch hynny, roedd oedi hefyd o ran derbyn cydweithrediad ac ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth gan staff gweithredol rheng flaen a mwy o bwysau ar reolwyr a staff mewn ymateb i'r pandemig yn golygu bod llai o ymgysylltu ag archwilio mewnol mewn rhai meysydd, yn bennaf oherwydd materion staffio a chapasiti, ac mae hynny wedi arwain at oedi yn ein harchwiliadau a chymerwyd mwy o amser i'w cwblhau.

Cododd y Pennaeth Archwilio a Risg y mater hwn yn ffurfiol gyda'r pennaeth gwasanaeth perthnasol ac fe ymyrrodd i sicrhau bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cael ei ddarparu.

## Meincnodi


Fel arfer rydym yn meincnodi ein perfformiad yn erbyn y 22 aelod Grŵp Prif Archwilwyr Cymru. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, mae gwaith meincnodi wedi cael ei ganslo am yr ail flwyddyn.

Mae tua 19 cyngor yn cymryd rhan yn rheolaidd yn yr ymarfer meincnodi. Fodd bynnag, mae nifer y cyfranogwyr yn gostwng bob blwyddyn, gyda chymhared yn cael ei nodi fel rheswm am beidio cymryd rhan. Yn ogystal, mae rhai prif swyddogion archwilio wedi herio perthnasedd y mesurau perfformiad presennol oherwydd eu bod yn rhy weithredol. O'r herwydd, mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru wedi sefydlu gweithgor i adolygu'r mesurau.

# HYFFORDDI A DATBLYGU

Mae pob aelod presennol o'r tîm wedi cymhwyso'n broffesiynol ac mae ganddynt gymysgedd dda o gymwysterau proffesiynol, yn cynnwys CIPFA[8], CIIA[9], IRRV[10] a ACFTech[11]. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi'n sylweddol i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol a'u bod yn ymwybodol o'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector. Yn ogystal, rydym wedi cymryd rhan ym mhob hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle'r oedd hynny'n ofynnol.

Yn ystod 2021-22, mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi cyfanswm o 88[12] (9%) diwrnod hyfforddi a datblygu, yn cynnwys y canlynol:




[8] CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) yw'r corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus.
Mae CIIA (Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol) yn gymdeithas broffesiynol ar gyfer archwilwyr mewnol.
[10] Yr IRRV (Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw) yw'r corff proffesiynol ar gyfer trethi lleol, budd-daliadau a phrisio.
[11] Mae ACFTech yn gymhwyster atal twyll sy'n cael ei ddarparu gan CIPFA a'i achredu gan y Bwrdd Achredu Proffesiynol Atal Twyll.
Cyfanswm o 139 diwrnod yn 2020-21 a oedd yn cynnwys 71 diwrnod ar gyfer cefnogi cynefino a datblygu aelod o staff amhrofiadol heb gymhwyso.

# CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS

O dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus mae'n rhaid i wasanaethau archwilio mewnol gael asesiad ansawdd allanol bob pum mlynedd.

Darparodd asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2017, sicrwydd bod y gwasanaeth yn **'Cydymffurfio'n Gyffredinol'**[13] gyda'r Safonau, sef yr asesiad uchaf sydd ar gael i'r asesydd.

Bydd yr asesiad nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2022 ac mae trefniadau'n cael eu gwneud gyda Grŵp Prif Archwilwyr Cymru i Gyngor Sir y Fflint gynnal adolygiad cymheiriaid.

[13] Mae 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' yn golygu bod y gwerthuswr wedi dod i'r casgliad bod strwythurau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol y gwasanaeth archwilio mewnol, yn ogystal â'r prosesau i'w gweithredu, yn cydymffurfio â gofynion y Safon neu'r elfen unigol o'r Cod Moeseg ym mhob ffordd berthnasol. Ar gyfer yr adrannau a'r prif gategorïau, mae hyn yn golygu bod cydymffurfiaeth gyffredinol â mwyafrif o Safonau neu elfennau unigol y Cod Moeseg, ac o leiaf gydymffurfiaeth rannol â'r lleill, yn yr adran / categori. Efallai bod cyfleoedd sylweddol i wella, ond ni chaiff y rhain fod yn sefyllfaoedd lle nad yw'r gwasanaeth wedi gweithredu'r Safonau neu'r Cod Moeseg, neu heb eu gweithredu'n effeithiol, neu heb gyflawni'r amcanion a fwriadwyd ar eu cyfer. Fel y nodir uchod, nid oes raid i gydymffurfiaeth gyffredinol fod yn gydymffurfiaeth gyflawn / perffaith, y sefyllfa ddelfrydol, arfer llwyddiannus, ac ati.

# HERIAU A CHYFLEOEDD I'R DYFODOL

Ynghyd â gweddill y Cyngor, mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi ymateb ac addasu i ffyrdd newydd o weithio yn sgil y pandemig Covid-19. Ailgyfeiriwyd adnoddau gennym er mwyn cwrdd â'r heriau newydd ac mae'r tîm yn parhau i fanteisio ar y dull ystwyth hwn. Serch hynny, er bod datblygiadau mewn technoleg yn cyflwyno cyfleoedd newydd i ail-ddylunio gwasanaeth, maent hefyd yn creu heriau o ran cymhlethdod a diogelwch.

Mae gofynion sicrwydd yn hyblyg ac yn newid yn barhaus, gan olygu fod rhaid i archwilio mewnol fedru cadw i fyny â chyflymder newid er mwyn gallu aros yn berthnasol a darparu sicrwydd ar feysydd megis newid hinsawdd, diogelwch seibr a risgiau ariannol sy'n dod i'r amlwg. Yn ogystal, mae angen i archwilio mewnol weithio ar y cyd â fframweithiau llywodraethu, risg, rheoli a sicrwydd y Cyngor.

Mewn cyhoeddiad diweddar, mae CIPFA[14] yn dadlau fod gan archwilio mewnol rôl gynyddol bwysig i'w chwarae wrth gynorthwyo sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu nodau. Mae arddangos stiwardiaeth dros arian cyhoeddus, adeiladu a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y penderfyniadau a wneir a chyflawni dyfodol cynaliadwy ar gyfer trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn ddisgwyliadau sylfaenol i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Gall archwilio mewnol gyfrannu at y we gymhleth hon o ddisgwyliadau, rhwymedigaethau, uchelgeisiau a heriau trwy ddarparu cymorth mewn ffordd unigryw ac annibynnol.

Mae cyflawni hyn yn gofyn am archwilwyr mewnol sydd wedi eu hyfforddi ac sy'n cael eu cefnogi gan ddulliau modern a safonau proffesiynol. Mae'n gofyn am gapasiti a galluogrwydd. Mae trosiant staff wedi creu her o ran sicrhau archwilwyr sydd â digon o brofiad i gwblhau gwaith mwy cymhleth, yn ogystal â hyfforddi a chefnogi aelodau newydd o staff. Fodd bynnag, mae tîm brwdfrydig ac ymroddedig yn golygu bod y gwasanaeth archwilio mewnol mewn sefyllfa dda i sicrhau y gall gyflawni ei strategaeth a pharhau i gefnogi'r Cyngor fel elfen allweddol o'i strwythur llywodraethu.

---

[14] *'Internal audit: untapped potential'*, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mai 2022

# ATODIAD A: DIFFINIAD O RADDFEYDD SICRWYDD 2021-22

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda**.<br><br>**Dim Risgiau/Materion sylweddol nac o bwys wedi eu canfod.** |
| Sicrwydd Rhesymol | Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol**.<br><br>**Mae mân wendidau o ran rheoli risgiau a / neu fesurau rheoli ond nid oes unrhyw risgiau o ran cyflawni amcanion. Gall Rheolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw i'r rhain.** |
| Sicrwydd Cyfyngedig | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae gwendidau sylweddol wrth reoli risgiau a / neu reolaethau sy'n peryglu cyflawni amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen hysbysu'r UDA.** |
| Dim Sicrwydd | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol **yn sylweddol ddiffygiol**.<br><br>**Mae gwendidau sylfaenol wrth reoli risgiau / a neu reolaethau a fydd yn arwain at fethu â chyflawni amcanion. Mae angen i'r UDA roi sylw iddynt ar unwaith ac efallai y bydd angen ymyrraeth y Pwyllgor Gwaith.** |

Yn ôl i'r Adran

# ATODIAD B: SICRWYDD TRYDEDD LINELL - RISGIAU GWEDDILLIOL COCH AC AMBR YN Y GOFRESTR RISG STRATEGOL 2021-22

| Cyf Risg | Risg | Dyddiad Creu (Adolygwyd) | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| YM 2 | Risg bod y Cyngor yn methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu nad yw'r strwythur staffio yn addas i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. | 20/06/18 (12/01/22) | Recriwtio a Chadw (Mawrth 2019) | | | Recriwtio a Chadw (Mai 2022) |
| YM 3 | Risg bod methiant TG yn amharu'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau | 10/09/18 (12/01/22) | | Archwiliad TG - Gwydnwch TG (Ebrill 2020) | Archwiliad TG (Dilyn i Fyny) - Gwydnwch TG (Mai 2021) | Gwendidau a rheoli patsys (Drafft) (Mehefin 2022) |
| YM 5 | Risg nad yw'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn cael ei gweithredu'n llawn gan effeithio ar safonau a'r gallu i ddarparu addysg lle mae galw amdano ac ymateb i heriau addysgol yn y dyfodol | 20/06/18 (12/01/22) | Gofynnodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r archwiliad gael ei ohirio oherwydd seibiant yn y rhaglen | | | |
| YM 14 | Risg nad yw asedau ffisegol yr Ynys (e.e. adeiladau, ffyrdd, rhwydwaith TG) yn addas i bwrpas, neu nad ydynt yn diwallu anghenion preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr | 19/02/21 (12/01/22) | | | | Buddsoddi mewn Asedau (Tachwedd 2021) |
| YM 4 | Risg bod ymosodiad seibr yn cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cefnogol ac y bydd y Cyngor yn derbyn dirwy sylweddol gan y Comisiynydd Gwybodaeth | 21/06/18 (12/01/22) | Archwiliad TG - Diogelwch Seibr (Chwefror 2019) | | Archwiliad TG - Gwe-rwydo (Mai 2021) | Archwiliad TG - Gwe-rwydo (Dilyn i Fyny Cyntaf) (Drafft) (Mehefin 2022) |
| YM 6 | Risg bod y pandemig Covid-19 yn amharu ar allu'r cyngor i barhau i weithredu a chefnogi'r gymuned. | 11/05/20 (12/01/22) | | | Adolygiad o'r Ymateb i Argyfwng Covid-19 (Ebrill 2020) | |

| Cyf Risg | Risg | Dyddiad Creu (Adolygwyd) | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| YM 9 | Risg o ddiffyg tai addas y gall preswylwyr lleol eu fforddio yn eu cymunedau | 12/01/22 | | | | Trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu tai addas (Drafft) (Mai 2022) |
| YM 11 | Risg bod tlodi cynyddol yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor | 20/06/18 (12/01/22) | | Diwygio Lles (Ebrill 2019) | | Ymdopi â digartrefedd ac effaith Covid-19 (Mehefin 2021) |
| YM 1 | Risg bod y gostyngiad amser real yng nghyllid y Cyngor yn parhau a'i fod yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol, methu â chyflawni blaenoriaethau a mwy o bwysau staffio | 14/05/19 (25/01/21) (12/01/22) | | Gwytnwch Ariannol (Ebrill 2020) | | |
| YM 7 | Risg bod newid tu hwnt i reolaeth y Cyngor (e.e. Brexit, pandemig Covid-19) yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau fforddiadwy | 20/06/18 04/01/19 (12/01/22) | | Rheoli Risgiau Brexit (Ionawr 2020)<br>Parhad Busnes (Chwefror 2020) | Adolygiad o'r Ymateb i Argyfwng Covid-19 (Ebrill 2020) | |
| YM 8 | Risg bod y duedd i bobl ieuengach adael yr ynys tra bod pobl hŷn yn symud i'r ynys yn parhau, neu'n cyflymu, gan effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau addas ac ar ddwyieithrwydd cymunedau | 12/01/22 | | | | |
| YM 13 | Risg na all y Cyngor addasu i fod yn Awdurdod carbon niwtral erbyn 2030 | 07/12/20 (12/01/22) | | | | Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd (Drafft) (Mehefin 2022) |
| YM 10 | Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain at neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | 20/06/18 (12/01/22) | Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Mehefin 2018) | | Panel Rhiant Corfforaethol (Ionawr 2021) | |

Yn ôl i'r Adran

# ATOODIAD C: SICRWYDD TRYDEDD LINELL – GWAITH ARCHWILIO MEWNOL ARALL YN 2021-22

| Teitl yr Archwiliad | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd rheoli argyfwng (Sicrwydd Llinell Gyntaf) | Mai-21 | Rhesymol | 0 | 0 | 0 |
| Canfod anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg | Mai-21 | Cyfyngedig | 0 | 3 | 3 |
| Gwydnwch TG (Dilyn i Fyny am y tro cyntaf) | Mai-21 | Rhesymol | 0 | 2 | 1 |
| Cynllun Taliad Arbennig i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | Gorff-21 | Sylweddol | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion (Dilyn i Fyny am y tro cyntaf) | Gorff-21 | Rhesymol | 0 | 0 | 1 |
| Cwyn ynghylch dyrannu contract (Ymchwiliad) | Gorff-21 | Amherthnasol | 0 | 0 | 0 |
| Proses Gadawyr (Dilyn i Fyny am y tro cyntaf) | Medi-21 | Rhesymol | 0 | 0 | 3 |
| Gosodiadau Tai | Medi-21 | Rhesymol | 0 | 3 | 3 |
| Adennill dyledion y Cyngor ac effaith Covid-19 | Tach-21 | Cyfyngedig | 0 | 3 | 5 |
| Gwasanaethau Eiddo - Caffael gwaith draenio (Ymchwiliad) | Tach-21 | Amherthnasol | 0 | 0 | 0 |
| Llety Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014) - Ymweliad Dilyn i Fyny a Diweddaru Statws (risg corfforaethol YM29 yn flaenorol) | Tach-21 | Rhesymol | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli Trwyddedau Meddalwedd | Ion-22 | Cyfyngedig | 0 | 1 | 9 |
| Llywodraethu Gwybodaeth (risg corfforaethol YM3 yn flaenorol) | Chwef-22 | Rhesymol | 0 | 2 | 5 |
| Taliadau - cynnal cyflenwyr a chanfod anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg (Dilyn i Fyny Cyntaf ar y Cyd) | Ebrill-22 | Cyfyngedig | 0 | 2 | 8 |
| Adennill dyledion y Cyngor ac effaith Covid-19 (Dilyn i Fyny am y tro cyntaf) | Ebrill-22 | Cyfyngedig | 0 | 3 | 5 |
| Gweinyddu Pensiynau Athrawon | Mai-22 | Cyfyngedig | 0 | 2 | 2 |
| Twyll a Llygredd ym maes Caffael (risg corfforaethol YM46 yn flaenorol) | Mehefin | Rhesymol (Drafft) | 0 | 0 | 6 |
| | | **17** | **0** | **21** | **51** |

Yn ôl i'r Adran

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 29 Mehefin 2022 |
| **Pwnc:** | Strategaeth Archwilio Mewnol 2022-23 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn penderfynu a yw'n bodloni gofynion sicrwydd y Cyngor. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog archwilio sefydlu cynllun sy'n seiliedig ar risg er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau'r gweithgareddau archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r rhain (Safon 1110). | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol 2022-23 arfaethedig wedi ei hatodi ar gyfer ei hadolygu a'i thrafod gan y Pwyllgor.

## 2. Cefndir

2.1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) angen i mi, fel y prif swyddog archwilio, sefydlu cynlluniau sy'n seiliedig ar risg er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau'r gweithgareddau archwilio mewnol sy'n gyson â nodau'r Cyngor. Wrth flaenoriaethu ein hadnoddau cyfyngedig, mae'n rhaid i ni wneud gwaith digonol er mwyn fy ngalluogi i ddarparu barn archwilio mewnol flynyddol fel y gall y Cyngor siapio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

2.2. Fel sail i'r gwaith archwilio, rydw i wedi defnyddio'r gofrestr risg strategol er mwyn penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau archwilio mewnol. Yn ychwanegol at hynny, rydw i wedi cyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a phenaethiaid gwasanaeth er mwyn trafod eu safbwyntiau am y meysydd arfaethedig ar gyfer eu hadolygu a'r meysydd sy'n achosi pryder.

2.3. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y sefyllfa bresennol, byddaf yn parhau i adolygu'r blaenoriaethau yn ôl yr angen, mewn ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau a rhaglenni'r Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol. Byddaf yn adrodd ar y newidiadau i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 3. Argymhelliad

3.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23 ac yn ystyried a yw'r dull a'r blaenoriaethau a amlinellir yn bodloni anghenion sicrwydd y Cyngor.



# STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2022-23

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA

Mehefin 2022

Pennaeth Archwilio a Risg

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS


RHAGAIR - CYD-DESTUN CYFREDOL 3
CYFLWYNIAD 4
STRWYTHUR Y GWASANAETH, CAPASITI A HYFFORDDIANT 5
Strwythur 5
Hyfforddiant 6
DULL ARCHWILIO 7
Archwilio sy’n seiliedig ar Risg 7
Mapio Sicrwydd 7
Archwilio Ystwyth 8
BLAENORIAETHAU 9
Cofrestr Risg Strategol 9
Archwiliad TG 10
Twyll 11
Gweinyddu Pensiynau Athrawon 11
Gweinyddu Pensiynau Llywodraeth Leol 12
Cronfeydd Answyddogol Ysgolion 12
Rheolaeth ariannol mewn ysgolion 12
Monitro Parhaus 12
Gwaith sy’n weddill o 2021-22 13
DILYN I FYNY 14
MESURAU PERFFORMIAD 15
Meincnodi 15
HERIAU A CHYFLEOEDD I’R DYFODOL 16
ATODIAD A: RISGIAU GWEDDILLIOL COCH AC AMBER YN Y GOFRESTR RISG STRATEGOL 17

# RHAGAIR – CYD-DESTUN CYFREDOL

Mae amgylchiadau digynsail y pandemig coronafeirws byd-eang yn parhau i siapio'r amgylchedd risg ar gyfer y Cyngor.

Mae systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol sydd wedi hen ennill eu plwyf wedi bod yn holl bwysig yng nghanol yr amharu parhaus ar weithrediadau'r Cyngor. Gwerthuswyd yn gyflym yr hyn y gallwn ei gyflawni, ac ailedrychwyd yn aml ar flaenoriaethau archwilio y cytunwyd arnynt gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i bennu blaenoriaethau a darparu sicrwydd amser real a oedd wedi'i dargedu at y risgiau a oedd yn achosi'r pryder mwyaf.

Rydym yn parhau i fanteisio ar ddull hyblyg ac ystwyth drwy edrych ymlaen, bod yn rhagweithiol ac aros mor agos at y sefydliad â phosib i ddeall ei risgiau a'i anghenion. Rydym yn defnyddio ein hadnoddau cyfyngedig yn ddoeth i gynnal cydbwysedd gofalus rhwng rheoli anghenion sicrwydd brys, tymor byr a hirdymor. Yn gynyddol, mae hyn yn cynnwys nid yn unig ystyriaethau gweithredol ond hefyd risgiau a ffactorau strategol yn yr amgylchedd allanol sy'n effeithio ar y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Strategol yn dibynnu ar y safbwynt annibynnol, ystwyth ac o'r brig i lawr hwn i gael mewnwelediad i'r sefydliad a'r risgiau iddo yn ystod yr hyn sy'n parhau i fod yn gyfnod heriol.

# CYFLWYNIAD

**Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n darparu sicrwydd a chyngor i reolwyr ar bob lefel ac i aelodau etholedig ac aelodau lleyg ar ansawdd gweithrediadau yn y Cyngor.**

Rydym yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus[1] (PSIAS), sy'n diffinio archwilio mewnol fel:

> **Mae archwilio mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori annibynnol, gwrthrychol sydd wedi'i gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithgareddau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni ei amcanion trwy ddull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu.**

Agwedd bwysig ar archwilio mewnol yw i ba raddau y mae'n helpu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion a gwella. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'n gwaith ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i'r sefydliad, a rhaid i'r farn a'r awgrymiadau gwella a ddarparwn helpu'r sefydliad a chael eu gwerthfawrogi gan randdeiliaid. Felly mae amcanion y tîm fel a ganlyn:

- rhoi sicrwydd a chyngor annibynnol i reolwyr ac aelodau etholedig ac aelodau lleyg ar reoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol
- datblygu a hyrwyddo ein rôl i wneud cyfraniad sylweddol i nod y Cyngor i foderneiddio, darparu effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid
- ychwanegu gwerth ym mhob maes o'n gwaith, gan ddarparu gwasanaeth ardderchog i'n cwsmeriaid


[1] Mae'r Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (CIPFA, yr Adran Iechyd, Llywodraeth Cymru, yr Adran Gyllid (Gogledd Iwerddon), Trysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth yr Alban) yn cyhoeddi Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2017) ac maent yn orfodol i bob corff llywodraeth leol a chanolog.

# STRWYTHUR Y GWASANAETH, CAPASITI A HYFFORDDIANT

## Strwythur

Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae integreiddio'r timau Archwilio Mewnol a Rheoli Risg, mabwysiadau dull sy'n gwbl seiliedig ar risg, y model 'tair llinell' a dull 'archwilio ystwyth', wedi gwella'r sicrwydd y mae'n ei roi i'r Cyngor. Mae'r tîm wedi ymateb yn dda; mae staff wedi addasu eu sgiliau, wedi cynnal archwiliadau mwy cymhleth ac ar lefel strategol, ac wedi rheoli llwyth gwaith uwch.

Mae'r tîm yn cynnwys cyfoeth o brofiad archwilio mewnol ac allanol, ynghyd â chymysgedd ardderchog o gymwysterau proffesiynol, yn cynnwys CIPFA[2] , CIIA[3] , IRRV[4] ac ACFTech[5], ynghyd â chymwysterau academaidd mewn Rheoli Newid, Busnes a Chyfrifyddiaeth.




Archwilio Mewnol a Rheoli Risg, Mai 2022

[2] CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) yw'r corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus.
[3] Mae'r CIIA (Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol) yn gymdeithas broffesiynol ar gyfer archwilwyr mewnol.
[4] Yr IRRV (Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw) yw'r corff proffesiynol ar gyfer trethiant lleol, budd-daliadau a phrisio.
[5] Mae'r ACFTech yn gymhwyster atal twyll a ddarperir gan CIPFA a'i achredu gan y Bwrdd Achredu Proffesiynol Atal Twyll.


Fodd bynnag, mae trosiant staff yn dal i fod yn broblem, er gwaethaf ymarfer recriwtio llwyddiannus yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae gennym 1.5 o swyddi gwag (cyfwerth ag amser llawn) ar lefel Uwch Archwilydd oherwydd secondiad ac ymddiswyddiad.

Mae CIPFA[6] a'r CIIA wedi nodi recriwtio a chadw staff fel her benodol i dimau archwilio mewnol ac maent yn bwriadu cynnal rhywfaint o ymchwil ar opsiynau o ran llwybrau gyrfa a llwybrau i mewn i archwilio mewnol er mwyn annog recriwtio cynaliadwy, hirdymor i'r rôl.

## Hyfforddiant

Bydd y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddi a datblygu i sicrhau bod y tîm yn parhau â'u datblygiad proffesiynol, yn cadw i fyny â'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector, a'u bod yn cael eu cadw. Byddwn hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle bo angen.

Byddwn yn buddsoddi tua 100 diwrnod (11%) mewn hyfforddi a datblygu yn ystod 2022-23, gan gynnwys:




[6] *'Internal audit: untapped potential'*, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, Mai 2022

# DULL ARCHWILIO

Mae'r proffesiwn Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol ers ei ddyddiau yn gwirio cydymffurfiaeth pan oedd gwaith archwilio'n canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r gorffennol a sicrhau cydymffurfiaeth. Cyfrifoldeb rheolwyr yw cydymffurfio. Mae archwilio wedi esblygu, gan symud o archwilio sy'n 'seiliedig ar systemau' i archwilio sy'n 'seiliedig ar risg', ac yn fwy diweddar, mae wedi mabwysiadu dull 'archwilio ystwyth' i helpu sefydliadau i edrych ymlaen a mynd i'r afael â materion a allai effeithio ar berfformiad yn fwy hyblyg.

Yn wahanol i archwilio mewnol traddodiadol, lle mae cynlluniau archwilio'n cael eu gweithredu yn unol ag amserlen gaeth, a lle nad ydynt o reidrwydd yn rhoi sylw i'r risgiau pwysicaf, mae archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg yn cael ei yrru gan yr asesiadau risg diweddaraf, gan roi sylw i'r bygythiadau mwyaf yn gyntaf ac yn llawer mwy aml.

## Archwilio sy'n seiliedig ar Risg

Mae Safon 2010 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn nodi bod rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu dull sy'n seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau gweithgaredd archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad.

O ganlyniad, y ffordd orau i'r gweithgaredd archwilio mewnol proffesiynol gyflawni ei genhadaeth fel conglfaen llywodraethu yw trwy leoli ei waith yng nghyd-destun fframwaith rheoli risg y sefydliad ei hun. Felly, rydym wedi alinio ein gweithgaredd archwilio mewnol â'r gofrestr risg strategol.

Er mwyn darparu dull mwy ystwyth ac i gymryd newidiadau yn y sefydliad a'r amgylchedd risg i ystyriaeth, rydym hefyd yn cwrdd ag uwch reolwyr i drafod eu risgiau, eu pryderon a'u gofynion diweddaraf. Yn y modd hwn, rydym yn gwbl ymwybodol o'r materion sy'n dod i'r amlwg ac yn gallu canolbwyntio ein hadnoddau yn y meysydd sydd â'r flaenoriaeth a'r risg fwyaf.

## Mapio Sicrwydd

Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol mewn sefyllfa unigryw yn y sefydliad i roi sicrwydd cyfannol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, llywodraethu a rheoli risg.

Mae'r 'model tair llinell' yn fframwaith y gellir ei ddefnyddio i ddod â'r ffynonellau sicrwydd hyn at ei gilydd, a bydd yn rhoi sicrwydd i aelodau, rheoleiddwyr sector ac archwilwyr allanol bod rheolaethau a phrosesau priodol ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol, ac y byddant yn cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

Byddwn yn gweithio gyda'r llinell gyntaf ac ail linell i sicrhau'r fath sicrwydd ac yn cefnogi'r Tîm Busnes a Pherfformiad Corfforaethol i ddefnyddio ein meddalwedd rheoli risg (4risk) i gofnodi'r 'tair llinell':

- Llinell Gyntaf - Rheolaeth: Swyddogaethau gweithredol
- Ail Linell – Swyddogaethau cymorth megis AD, Cyllid, TG, Cyfreithiol, Diogelwch Gwybodaeth, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Risg
- Trydedd Linell – sicrwydd cyffredinol a ddarperir gan gyrff rheoleiddio mewnol, allanol neu eraill a'r Corff Llywodraethu (Atebolrwydd)

## Archwilio Ystwyth

Y prif wahaniaeth rhwng archwilio ystwyth ac archwilio traddodiadol yw hyblygrwydd. Yn lle cynllunio anhyblyg, un cam, mae archwilio ystwyth yn canolbwyntio ar gynllunio hyblyg, ailadroddol ar sail barhaus. Mewn gwaith archwilio traddodiadol, mae'r cynllunio'n digwydd fisoedd os nad blynyddoedd ymlaen llaw, a all olygu bod y 'cynllun' wedi dyddio cyn iddo gael ei gymeradwyo hyd yn oed.

Mae cylch cynllunio hyblyg yr archwiliad ystwyth yn caniatáu i dimau flaenoriaethu tasgau yn seiliedig ar risgiau ac anghenion y sefydliad. Yn lle dilyn cynllun archwilio mewnol anhyblyg, mae ôl-groniad o archwiliadau a phrosiectau yn cael eu diweddaru'n barhaus.

Mae ffocws craidd ar gydweithio a chyfathrebu rhwng y tîm archwilio a'r rhanddeiliaid trwy gydol yr holl brofiad hefyd. Er bod ansawdd archwilio bob amser yn ystyriaeth allweddol, mae cyfathrebu'n digwydd yn fwy aml ac anffurfiol ac nid oes unrhyw beth annisgwyl yn codi.

Mwya'n y byd yr ydym yn ei wybod, a chynharaf yn y byd y byddwn yn ei wybod, gorau yn y byd y gallwn helpu'r sefydliad i fynd â'r afael â materion rheoli a risg posib. Mae hyn yn helpu i leihau'r effaith negyddol ar gwsmeriaid, staff ac aelodau.

# BLAENORIAETHAU

## Cofrestr Risg Strategol

Er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r Cyngor, mae rhan helaeth o'n gwaith yn canolbwyntio ar adolygu risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y gofrestr risg strategol (lle mae'r risg gynhenid yn goch), h.y. risgiau coch/coch a coch/ambr, dros gyfnod treigl o ddwy flynedd. O'r herwydd, rhoddir blaenoriaeth i adolygu'r risgiau a adolygwyd ddiwethaf yn 2020-21 (gweler Atodiad A).

### Risgiau Coch/Coch

Ar hyn o bryd mae'r gofrestr risg strategol yn cynnwys pump (saith yn 2020-21) risg lle mae'r Cyngor wedi asesu'r risg gynhenid a'r risg gweddilliol fel risgiau coch:

- Risg bod y Cyngor yn methu â recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu nad yw'r strwythur staffio yn addas, i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol (YM2)
- Risg bod methiant TG yn amharu'n ddifrifol ar ddarparu gwasanaethau (YM3)
- Risg nad yw'r prosiect moderneiddio ysgolion yn cael ei weithredu'n llawn a bod hyn yn effeithio ar safonau a'r gallu i ddarparu addysg lle mae galw amdano ac ymateb i heriau addysgol y dyfodol (YM5)
- Risg nad yw asedau corfforol yr Ynys (e.e. adeiladau, ffyrdd, rhwydwaith TG) yn addas i bwrpas, neu'n cwrdd ag anghenion preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr (YM14)
- Risg bod ymosodiad seibr yn cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cefnogi ac yn arwain at ddirwy sylweddol gan y Comisiynydd Gwybodaeth (YM4)

### Risgiau Coch/Ambr

Mae'r saith (10 yn 2020-21) risg gynhenid goch sy'n weddill sydd â risg weddilliol ambr yn cynnwys y pandemig Covid-19 yn amharu ar allu'r Cyngor i ddarparu ei wasanaethau, darparu tai addas yn y gymuned, mwy o dlodi yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor, lleihad yng nghyllid y Cyngor, parhad busnes, y targed carbon niwtral a diogelu.

## Archwiliad TG

Yn ôl Llywodraeth y DU, TG yw un o'r pedair prif risg i ddiogelwch cenedlaethol y DU. Mae Seibr-ddiogelwch a diogelwch data ymysg y pum risg uchaf yn ôl prif swyddogion archwilio yn Ewrop, gyda 34% yn dweud mai hwn yw eu risg unigol mwyaf. Mae hyn yn cyd-fynd â chynnydd o bwys mewn troseddau seibr yn ystod y 18 mis diwethaf, wrth i droseddwyr geisio manteisio ar wendidau mewn diogelwch a amlygwyd gan amhariadau gweithredol.

Gan mai risg yn gysylltiedig â TG yw'r prif risg yng nghofrestr risg strategol y Cyngor, ynghyd â dau risg arall yn gysylltiedig â TG, heb os TG yw'r risg (a'r cyfle) mwyaf sylweddol i'r Cyngor. Mae datblygiadau mewn technoleg yn cynnig cyfleoedd newydd i ail-ddylunio gwasanaethau, ond maent hefyd yn creu heriau o ran cymhlethdod a diogelwch. Mae risgiau sylweddol o hacio, staff yn methu defnyddio systemau allweddol neu gael mynediad at ddata allweddol, a gall pob un o'r rhain wneud drwg i enw da'r Cyngor, neu arwain at ddirwyon am dorri GDPR ac, yn holl bwysig, methiant i ddarparu gwasanaeth i gleientiaid bregus.

Ar ôl cyrraedd pendraw ein galluoedd technegol yn y maes hwn, rydym wedi comisiynu Archwilwyr TG Cyngor Dinas Salford i gynnal rhaglen o waith i ddarparu sicrwydd i'r Cyngor bod ei wendidau ym maes TG yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Rydym wedi ceisio sicrwydd fod y Cyngor wedi cynnal asesiad risg priodol a'i fod wedi rhoi rheolaethau caled a meddal ar waith. Mae rheolaethau caled yn cynnwys diweddaru patsys meddalwedd yn rheolaidd, cyflunio waliau tân a systemau canfod bygythiadau yn gywir, a defnyddio mynediad breintiau lleiaf ac awdurdodiad dau ffactor i atal ymosodiadau rhag lledaenu o'r cyfrifiadur sy'n cael ei gyfaddawdu'n wreiddiol trwy'r rhwydwaith cyfan.

Mae rheolaethau meddal yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o risg ledled y sefydliad, gyda diwylliant cadarn o seibr ddiogelwch yn elfen lliniaru risg allweddol. Pan fyddwn yn hyderus bod y sylfeini hyn wedi'u gosod, byddwn yn troi at allu'r Cyngor i ymateb ac adfer. Os nad yw staff yn deall cynlluniau parhad TG, neu'n waeth na hynny, os nad oes cynlluniau o'r fath, bydd y Cyngor yn agored i risgiau diangen. Felly, byddwn yn ceisio tystiolaeth bod cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer y sefyllfaoedd hyn, yn cynnwys ymarferion rhediad sych, a bod yna adnoddau

pwrpasol i reoli argyfwng seibr ac adfer gyda llinellau atebolrwydd clir a bod digwyddiadau'n cael eu hadrodd mewn da bryd.

### Twyll

Yn ystod 2021-22, heblaw am gefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol, cynnal ymchwiliadau adweithiol a chynnal adolygiad o dwyll a llygredd ym maes caffael, cwtogwyd ar y rhaglen atal twyll oherwydd problemau capasiti.

Roedd y cynlluniau yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant a phecyn e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth am dwyll yn y sefydliad a chymryd camau i'w nodi, ynghyd ag edrych ar ddatblygu mecanwaith adrodd ar-lein.

Roedd adroddiad gan Gymdeithas yr Archwilwyr Twyll Ardystiedig yn rhoi mewnwelediad ar sut mae llinellau adrodd am dwyll a darparu hyfforddiant i weithwyr yn gwella cyfraddau darganfod twyll. Roedd yn dangos mai gweithwyr oedd y ffynhonnell orau o ran adrodd am dwyll a bod y rhan fwyaf o adroddiadau yn dod drwy fecanweithiau adrodd ar-lein.

Felly, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll yn cael effaith sylweddol ar adrodd am dwyll ac atal twyll, felly, yn ogystal â chynnal gweithgareddau atal twyll wedi eu targedu, byddwn yn blaenoriaethu gweithio gyda chydweithwyr yn y tîm Hyfforddi a Datblygu AD i godi ymwybyddiaeth trwy becyn e-ddysgu, a byddwn yn archwilio mecanweithiau adrodd ar-lein.

Byddwn hefyd yn parhau â'r adolygiad o ymagwedd y Cyngor tuag at atal twyll, atal llwgrwobrwyo a llygredd, atal gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth a byddwn yn diweddaru'r Cynllun Ymateb i Dwyll yn unol â hynny. Bydd y Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-25 yn manylu ar y cynlluniau hyn.

## Gweinyddu Pensiynau Athrawon

Yn ystod 2021-22, yn dilyn cwynion am fylchau yng nghofnodion gwasanaeth pensiynadwy rhai athrawon, gofynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i Archwilio Mewnol adolygu'r broses o gyflwyno gwybodaeth am gyfraniadau pensiwn a gwasanaeth i'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS). Nodom nifer o faterion a allai olygu bod y

cofnodion gwasanaeth a gedwir gan y TPS yn anghywir, a gallai hyn arwain at feirniadaeth a/neu ddirwyon gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Mae'r TPS wedi datblygu proses newydd ar gyfer cyflwyno data, a ddylai fod wedi cael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2022. Fodd bynnag, mae problemau gydag adroddiadau wedi arwain at oedi o ran gweithredu'r broses. Byddwn yn adolygu cywirdeb y ffeil ddata newydd pan fydd y broses wedi'i gweithredu'n llawn.

## Gweinyddu Pensiynau Llywodraeth Leol

Nodwyd materion mwy cyffredinol yn ymwneud â gweinyddu pensiynau yn ystod yr archwiliad ar weinyddu pensiynau athrawon a'r adolygiad dilyn i fyny ar y Broses Gadawyr. Felly, byddwn yn cynnal archwiliad ar weinyddu'r pensiwn Llywodraeth Leol.

## Cronfeydd Answyddogol Ysgolion

Byddwn yn parhau i gefnogi'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc er mwyn darparu sicrwydd bod cyfrif cywir yn cael ei roi am incwm a gwariant mewn cronfeydd ysgol answyddogol a bod y trefniadau llywodraethu'n briodol. Bydd hyn yn golygu darparu adborth a hyfforddiant pellach i benaethiaid, a sicrhau ansawdd tystysgrifau archwilio cronfeydd ysgol.

## Rheolaeth ariannol mewn ysgolion

Amlygodd y gwaith i sicrhau ansawdd tystysgrifau cronfeydd answyddogol ysgolion a gwaith yn ystod archwiliadau rhai cronfeydd y byddai prosesau rheoli ariannol mewn ysgolion yn elwa o adolygiad mwy manwl.

## Monitro Parhaus

Yn gynnar yn 2021, prynasom feddalwedd i'n galluogi i ddadansoddi llawer iawn o ddata yn gyflym ac yn rhwydd. Defnyddiom y feddalwedd wrth gynnal yr archwiliad ar daliadau dyblyg yn y swyddogaeth Taliadau, a'r adolygiad dilyn i fyny, ac mae wedi ein helpu i nodi dros £280k o daliadau dyblyg hyd yn hyn.

Yn ogystal â dadansoddi data yn ystod archwiliadau eraill, byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y swyddogaeth Taliadau i nodi taliadau dyblyg a methiannau eraill yn y prosesau prynu a thalu.

O ganlyniad i'r gwaith monitro parhaus hwn, byddwn yn nodi methiannau posib mewn rheolaethau, a'r oblygiadau ariannol, yn gynt. P'un ai fydd yn arbed arian i'r Cyngor, neu os nad oes colled sylweddol, mae canfod methiannau mewn rheolaethau yn gynnar yn golygu bod modd cymryd camau adfer a gweithredu mewn da bryd.

## Gwaith sy'n weddill o 2021-22

Oherwydd y pandemig a swyddi gwag sy'n bodoli o hyd, rhoddwyd rhywfaint o'r gwaith blaenoriaeth is yr oeddem wedi'i nodi i'r naill ochr. Gyda gobaith, bydd ymarfer recriwtio llwyddiannus yn caniatáu i ni ailgychwyn y gwaith hwn:

### Ad-daliadau Treth Gyngor a Threthi Annomestig

Amlygodd archwiliad o daliadau dyblyg a gynhaliwyd yn ystod 2020-21 fod posibilrwydd o wneud taliadau dyblyg a bod gwendidau rheoli yn y system ar gyfer ad-dalu'r dreth gyngor a threthi annomestig. Byddwn yn adolygu'r system i sicrhau mai dim ond ad-daliadau dilys a wneir.

### Archwiliad Diogelwch Nwy

Ar gais y Pennaeth Tai, byddwn yn adolygu'r archwiliad diogelwch nwy a phrosesau gweinyddol i ddarparu sicrwydd bod y Cyngor yn cwrdd â'r rhwymedigaethau statudol.

### Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion

Mae bwlch cynyddol o ran ariannu gofal cymdeithasol, ac mae hyn yn rhoi pwysau critigol ar y Cyngor i reoli ei incwm a'i wariant yn y maes hwn. Mae galw cynyddol am wasanaethau a chymorth, ond llai o adnoddau a chapasiti i'w darparu. Yn ogystal, mae cost ariannol uniongyrchol i awdurdodau lleol a risg o wneud drwg i enw da'r Cyngor o ganlyniad i fethu â chwrdd â'r gofynion statudol. Felly, byddwn yn adolygu'r fframwaith codi tâl ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion.

### Arian Grant

Ariennir y Cyngor yn gynyddol gan grantiau unwaith ac am byth, a dderbynnir yn aml ar fyr rybudd. Felly, byddwn yn cynnal adolygiad o barodrwydd y Cyngor i ymateb i gyfleoedd cyllid grant.

# DILYN I FYNY

Mae Safon 2500 yn nodi bod rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu proses dilyn i fyny i fonitro a sicrhau bod rheolwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r risgiau a godwyd neu fod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â gweithredu.

Gall blaenoriaethau eraill, cyfyngiadau cyllidebol a ffactorau eraill atal rheolwyr rhag mynd i'r afael â Materion/Risgiau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni neu fel y cynlluniwyd yn flaenorol i liniaru'r risg.

Mae rheolwyr nad ydynt yn mynd i'r afael â Materion / Risgiau sy'n codi o waith archwilio mewnol yn peryglu'r sefydliad. Trwy ddilyn i fyny, mae hyn yn help i'w atal rhag dod yn broblem.

Yn unol â'n Siarter Archwilio Mewnol, byddwn yn cymryd camau ffurfiol i ddilyn i fyny'r holl Faterion / Risgiau a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio gyda sgôr Sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim Sicrwydd'. Pan fydd adroddiadau'n parhau i ddenu sgôr Sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim Sicrwydd', gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wahodd perchennog y risg neu'r pennaeth gwasanaeth i gyfarfod i drafod yr adroddiad.

Byddwn yn parhau i helpu'r Cyngor i dracio gweithrediad yr holl weithrediadau a byddwn yn cofnodi pob cam y cytunwyd arnynt ar system dracio fewnol (4action).

# MESURAU PERFFORMIAD

Mae archwilio mewnol seiliedig ar risg yn arloesol ac yn flaengar o ran arferion archwilio mewnol. Mae'n broses ddeinamig ac felly mae'n anos ei rheoli na methodolegau traddodiadol. Mae monitro cynnydd yn erbyn cynllun sy'n newid yn gyson yn her. Fodd bynnag, mae'r manteision yn gorbwyso'r anawsterau hyn ac rydym wedi adolygu ein mesurau perfformiad i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r anawsterau o ran mesur effeithiolrwydd archwilio mewnol.

Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith i sicrhau bod ein gwasanaeth archwilio mewnol yn gwella'n barhaus. Rydym wedi mabwysiadu cyfres lai a symlach o fesurau perfformiad i werthuso effeithiolrwydd ein gwaith, a gwelir hyn yn y tabl isod.

| Dangosydd Perfformiad | Perfformiad 2019-20 | Perfformiad 2020-21 | Targed 2021-22 | Perfformiad 2021-22 | Targed 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol a archwiliwyd (dros gyfnod treigl o 24 mis) | 50% | 28% | 60% | 83% | **85%** |
| Archwiliadau a gwblhawyd mewn chwe mis | 93% | 85% | 100% | 76% | **90%** |
| Cleientiaid sy'n ymateb eu bod o leiaf yn 'fodlon' | 100% | 100% | 100% | 100% | **100%** |
| Nifer y staff | 4.0 CALI* | 2.6 CALI | 5.0 CALI | 3.1 CALI | **5.0 CALI** |

* Cyfwerth ag amser llawn

## Meincnodi

Yn allanol, lle bo hynny'n berthnasol, byddwn yn parhau i feincnodi ein perfformiad yn erbyn y 21 aelod arall o Grŵp Prif Archwilwyr Cymru.

# HERIAU A CHYFLEOEDD I'R DYFODOL

Mae newid ac ansicrwydd wedi diffinio'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae Conffederasiwn Ewropeaidd o Sefydliadau Archwilio Mewnol yn dadlau, 'Mewn nifer o achosion bydd hyn yn gofyn am ailystyried strategaeth archwilio mewnol yn llwyr, gan gynllunio ym mhle mae'n canolbwyntio ei ymdrechion'[7]. Mae'n mynd ymlaen i ddweud, 'Rhaid i archwilio mewnol fod yn feiddgar. Os yw pwyllgorau archwilio'n disgwyl i'r drydedd linell ganolbwyntio ar feysydd risg traddodiadol sydd yn cael eu rheoli'n dda yn barod, nid yw'r busnes yn gwireddu potensial llawn archwilio mewnol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i brif swyddogion archwilio wthio'n ôl ac addysgu rhanddeiliaid, a'u hannog i ddefnyddio'r drydedd linell i asesu themâu risg mawr sy'n esblygu'n gyflym.'

Yn ffodus i archwilio mewnol yng Nghyngor Sir Ynys Môn, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth eisoes wedi rhoi eu cefnogaeth i archwilio mewnol beiddgar, trwy gefnogi symudiad archwilio mewnol i drefn archwilio mewnol ystwyth seiliedig ar risg yn 2018.

Mae gallu archwilio mewnol i gefnogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol a blaenoriaethau (a ddarperir trwy gymysgedd briodol o sicrwydd, gweithgarwch ymgynghori a chyngor), yn ddibynnol ar ansawdd y tîm archwilio mewnol. Fodd bynnag, mewn tîm bychan, mae absenoldebau staff wedi cael effaith sylweddol. Felly, mae cynyddu capasiti a medrusrwydd archwilio mewnol yn flaenoriaeth er mwyn gwella ei effaith a'i effeithiolrwydd a datblygu tîm hynod o gymwys a pherthnasol a all fynd i'r afael yn hyderus ag anghenion sicrwydd sy'n newid. Mae heriau o ran sicrhau bod y tîm yn cynnwys archwilwyr sy'n ddigon profiadol i gwblhau gwaith mwy cymhleth yn ogystal â hyfforddi a chefnogi staff newydd ac amhrofiadol.

Mae profiad o'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi darparu gwersi gwerthfawr. Mae staff newydd a brwdfrydig wedi rhoi'r tîm archwilio mewnol mewn sefyllfa dda i sicrhau bod ei strategaeth yn cael ei chyflawni. O'r herwydd bydd yn parhau i gefnogi'r Cyngor fel elfen allweddol o'i strwythur llywodraethu, **gan alluogi'r Pennaeth Archwilio a Risg i gyflawni'r gofyniad i gynhyrchu barn archwilio mewnol blynyddol, i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

---

[7] *'Risk in Focus 2022: Hot topics for internal auditors'*, Conffederasiwn Ewropeaidd o Sefydliadau Archwilio Mewnol

# ATODIAD A: RISGIAU GWEDDILLIOL COCH AC AMBER YN Y GOFRESTR RISG STRATEGOL

| Cyf Risg | Risg | Dyddiad Creu (Adolygwyd) | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| YM 2 | Risg bod y Cyngor yn methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu nad yw'r strwythur staffio yn addas i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. | 20/06/18 (12/01/22) | Recriwtio a Chadw (Mawrth 2019) | | | Recriwtio a Chadw (Mai 2022) |
| YM 3 | Risg bod methiant TG yn amharu'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau | 10/09/18 (12/01/22) | | Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Ebrill 2020) | Archwiliad Dilyn i Fyny TG - Gwytnwch TG (Mai 2021) | Gwendidau a rheoli patsys (Drafft) (Mehefin 2022) |
| YM 5 | Risg nad yw'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn cael ei gweithredu'n llawn gan effeithio ar safonau a'r gallu i ddarparu addysg lle mae galw amdano ac ymateb i heriau addysgol yn y dyfodol | 20/06/18 (12/01/22) | Gofynnodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r archwiliad gael ei ohirio oherwydd seibiant yn y rhaglen | | | |
| YM 14 | Risg nad yw asedau ffisegol yr Ynys (e.e. adeiladau, ffyrdd, rhwydwaith TG) yn addas i bwrpas, neu nad ydynt yn diwallu anghenion preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr | 19/02/21 (12/01/22) | | | | Buddsoddi mewn Asedau (Tachwedd 2021) |
| YM 4 | Risg bod ymosodiad seibr yn cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cefnogol ac y bydd y Cyngor yn derbyn dirwy sylweddol gan y Comisiynydd Gwybodaeth | 21/06/18 (12/01/22) | Archwiliad TG - Diogelwch Seibr (Chwefror 2019) | | Archwiliad TG - Gwe-rwydo (Mai 2021) | Archwilio TG - Gwe-rwydo (Dilyn i Fyny Cyntaf) (Drafft) (Mehefin 2022) |
| YM 6 | Risg bod y pandemig Covid-19 yn amharu ar allu'r cyngor i barhau i weithredu a chefnogi'r gymuned. | 11/05/20 (12/01/22) | | | Adolygiad o'r Ymateb i'r Argyfwng COVID-19 (Ebrill 2020) | |
| YM 9 | Risg o ddiffyg tai addas y gall preswylwyr lleol eu fforddio yn eu cymunedau | 12/01/22 | | | | Trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu tai addas (Drafft) (Mai 2022) |

| Cyf Risg | Risg | Dyddiad Creu (Adolygwyd) | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| YM 11 | Risg bod tlodi cynyddol yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor | 20/06/18 (12/01/22) | | Diwygio Lles (Ebrill 2019) | | Ymdopi â digartrefedd ac effaith Covid-19 (Mehefin 2021) |
| YM 1 | Risg bod y gostyngiad amser real yng nghyllid y Cyngor yn parhau a'i fod yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol, methu â chyflawni blaenoriaethau a mwy o bwysau staffio | 14/05/19 (25/01/21) (12/01/22) | | Gwytnwch Ariannol (Ebrill 2020) | | |
| YM 7 | Risg bod newid tu hwnt i reolaeth y Cyngor (e.e. Brexit, pandemig Covid-19) yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau fforddiadwy | 20/06/18 04/01/19 (12/01/22) | | Rheoli Risgiau Brexit (Ionawr 2020)<br>Parhad Busnes (Chwefror 2020) | Adolygiad o'r Ymateb i'r Argyfwng COVID-19 (Ebrill 2020) | |
| YM 8 | Risg bod y duedd i bobl ieuengach adael yr ynys tra bod pobl hŷn yn symud i'r ynys yn parhau, neu'n cyflymu, gan effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau addas ac ar ddwyieithrwydd cymunedau | 12/01/22 | | | | |
| YM 13 | Risg na all y Cyngor addasu i fod yn Awdurdod carbon niwtral erbyn 2030 | 07/12/20 (12/01/22) | | | | Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd (Drafft) (Mehefin 2022) |
| YM 10 | Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain at neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | 20/06/18 (12/01/22) | Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Mehefin 2018) | | Panel Rhiant Corfforaethol (Ionawr 2021) | |

Dychwelyd i'r Adran

This page is intentionally left blank

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllun Archwilio 2022 – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2883A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swydd unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, phan fo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

# Cynnwys

Cynllun Archwilio 2022

| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r ddogfen hon | 4 |
| Fy nyletswyddau | 4 |
| Effaith COVID-19 | 4 |
| Archwilio datganiadau ariannol | 5 |
| Archwiliad perfformiad | 8 |
| Ardystio hawliadau grant a ffurflenni | 11 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 11 |
| Ffi, y tîm archwilio a’r amserlen | 13 |

# Ynglŷn â'r ddogfen hon

1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

# Fy nyletswyddau

2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

## Archwilio datganiadau ariannol

3 Bob blwyddyn, byddaf yn archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrif yn briodol.

## Gwerth am arian

4 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i mi fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

## Egwyddor datblygu cynaliadwy

5 Rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

# Effaith COVID-19

6 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Deyrnas Unedig a gwaith sefydliadau'r sector cyhoeddus.

7 Er bod Cymru ar Lefel Rhybudd 0 y Coronafeirws ar hyn o bryd, bydd Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau yn y sefyllfa gyda'ch swyddogion.

# Archwilio datganiadau ariannol

8 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adrodd ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:

- barn ar 'wirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022; ac
- asesiad ynghylch a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn cael eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol ac yn gyson â'r datganiadau ariannol a gyda fy ngwybodaeth i am y Cyngor.

9 Yn ogystal â fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, rwyf hefyd yn gyfrifol am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am y Cyngor i gynorthwyo'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau am y cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen); ac
- ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff ariannu.

10 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai arwain at gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Bydd y lefelau y byddaf yn barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

11 Rwy'n barnu nad oes angen ystyried unrhyw gamddatganiadau sy'n is na lefel ddibwys (a bennir ar 5% o berthnasedd) gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac felly ni fyddaf yn eu hadrodd.

12 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

13 Byddaf hefyd yn adrodd drwy eithriad ar nifer o faterion sydd wedi'u nodi'n fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, ynghyd â gwybodaeth bellach am fy ngwaith.

## Risgiau archwilio datganiadau ariannol

14 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau sylweddol a nodwyd gennyf ar gyfer archwiliad y Cyngor.

**Arddangosyn 1: risgiau archwilio datganiad ariannol**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau allweddol wrth archwilio’r datganiad ariannol a nodwyd yng ngham cynllunio'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau sylweddol** | |
| Mae’r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i’r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o’r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Byddwn ni yn:<br>• profi priodoldeb y cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw ogwydd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. |
| **Risgiau archwilio eraill** | |
| **Effaith COVID-19**<br>Er bod cyfyngiadau COVID-19 bellach wedi'u dileu, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff a gweithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Mae risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol, e.e. o ran amcangyfrifon a phrisiadau, gael eu peryglu gan arwain at fwy o wallau. Gall trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu yr adnoddau sydd ar gael. | Byddwn yn trafod eich proses cau cyfrifon a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses o baratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i nodi meysydd lle y gall fod bylchau yn y trefniadau. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar risgiau camddatganiad perthnasol a siâp a dull fy archwiliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ffrydiau ariannu amrywiol i'r awdurdod. Mewn rhai achosion, mae'r arian hwn yn rhoi cymorth ariannol i'r awdurdod ei hun. Mewn achosion eraill, mae'r arian wedi'i weinyddu gan yr awdurdod, gan wneud taliadau i drydydd partïon ar ran Llywodraeth Cymru. Mae taliadau wedi'u darparu drwy nifer o gynlluniau gwahanol yn ystod 2021-22 ac mae'r symiau dan sylw yn berthnasol i'r cyfrifon.<br>Mae enghreifftiau o risgiau archwilio yn cynnwys:<br>• Triniaeth gyfrifyddu anghywir ar gyfer cyllid COVID-19 h.y. trefniadau prif swyddog neu asiantaeth<br>• Risgiau twyll/gwallau<br>• Ansicrwydd prisio posibl ar ddiwedd y flwyddyn<br>• Amcangyfrif o'r darpariaethau gwyliau blynyddol cronedig | Byddwn yn adolygu'r ffrydiau ariannu a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cadarnhau'r driniaeth gyfrifyddu briodol gyda'r awdurdod. |
| **Prisio asedau**<br>Roedd cyfrif am Eiddo, Offer Trwm a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol yn parhau i fod yn un o feysydd mwyaf heriol y cyfrifon ac mae'n arwain at y rhan fwyaf o'n canfyddiadau archwilio.<br>Yng ngoleuni'r cyfyngiadau COVID a oedd ar waith drwy gydol 2021-22 ac ansicrwydd ynghylch gwerthoedd y farchnad ar gyfer asedau ers dechrau'r pandemig, mae perygl y gallai gwerth cario asedau a adroddwyd yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth presennol asedau ar 31 Mawrth 2022. Yn benodol, gall hyn fod yn wir lle mae asedau wedi'u prisio ar sail dreigl ac nid ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. | Byddwn yn adolygu rhaglen prisio asedau'r Cyngor i weld pryd y cafodd grwpiau unigol o asedau eu prisio ac yn ceisio cadarnhau nad yw prisiadau a gynhaliwyd yn gynharach nag ar 31 Mawrth 2022 yn sylweddol wahanol i werth presennol asedau ar ddiwedd y flwyddyn. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| **Symleiddio'r cyfrifon**<br>Roedd Datganiad Cyfrifon 2020-21 y Cyngor yn cynnwys gormod o fanylion a datgeliadau islaw'r perthnasedd. Adroddwyd bod hwn yn fater pwysig a gododd o'r archwiliad yn yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon. Gall fod yn anodd dehongli cyfrifon awdurdodau lleol os ydynt yn cynnwys gormod o fanylion, neu os nad ydynt yn tynnu sylw at negeseuon allweddol am sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr awdurdod. Gall symleiddio'r cyfrifon arwain at gyfrifon cliriach a byrrach o ansawdd uchel gyda llai o adnoddau. | Mae'r Cyngor wedi cynghori y byddant yn symleiddio Datganiad o Gyfrifon 2021-22. Ni fydd canlyniad y camau symleiddio yn hysbys nes i'r cyfrifon drafft gael eu cyflwyno i'w harchwilio yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac ar yr adeg hon byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y flwyddyn. |
| **Ansawdd cyfrifon drafft a phapurau gwaith**<br>Roedd cyfrifon drafft 2020-21 y Cyngor yn gofyn am nifer fawr o welliannau nad oeddynt yn berthnasol. Roedd llawer o'r gwaith papur a ddarparwyd i ddechrau yn annigonol ac yn cynnwys anghysondebau â chofnodion yn y cyfriflyfr a'r cyfrifon. Adroddwyd bod hwn yn fater perthnasol yn codi o'r archwiliad yn yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon. | Mae'r Cyngor wedi dweud eu bod wedi gweithredu mesurau i wella ansawdd y datganiad cyfrifon drafft a phapurau gwaith ategol. Mae effaith effeithiolrwydd y mesurau hyn yn hysbys hyd nes y cyflwynir y wybodaeth i'w harchwilio yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |

## Archwiliad perfformiad

15 Yn ogystal â fy Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol, rwyf hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol fel y nodir ym **mharagraffau 4 a 5** mewn perthynas â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

16 Mewn ymateb i'r pandemig, mabwysiadais ddull hyblyg o ymdrin â fy ngwaith archwilio perfformiad o ran cwmpas a methodoleg y pwnc. Galluogodd hyn i mi ymateb i'r amgylchedd allanol sy'n symud yn gyflym a darparu adborth mwy amser real mewn amrywiaeth o fformatau.

17 Ar gyfer 2022-23, rwy'n bwriadu parhau â'r dull hwn i helpu i alluogi fy ngwaith i fod yn ymatebol ac yn amserol, a phan fo'n bosibl rhannu'r hyn a ddysgwyd yn gyflymach. Fel rhan o'r dull hwn, rwy'n rhagweld y bydd cyfran sylweddol o fy

rhaglen archwilio perfformiad leol yn parhau i gael ei chyflawni drwy'r Prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg, a fydd yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn.

18 O ystyried y graddau uchel o gyffredinedd yn y risgiau sy'n wynebu cynghorau, rwyf hefyd yn bwriadu cyflawni nifer o brosiectau thematig sy'n archwilio risgiau sy'n gyffredin i bob cyngor.

19 Yn ystod 2020-21, ymgynghorais â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ar sut y byddaf yn ymdrin â fy nyletswyddau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o 2020-2025.

20 Ym mis Mawrth 2021, ysgrifennais at y cyrff cyhoeddus a ddynodwyd o dan y Ddeddf yn nodi fy mwriadau, sy'n cynnwys a). cynnal archwiliadau penodol o sut mae cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant a b). integreiddio fy mhrif archwiliadau datblygu cynaliadwy o gamau i gyflawni amcanion llesiant gyda fy rhaglenni archwilio cenedlaethol a lleol.

21 Mae fy archwilwyr yn cysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn i gytuno ar yr amser mwyaf priodol i archwilio'r ffordd y gosodir amcanion llesiant.

22 Bydd camau i gyflawni amcanion llesiant yn cael eu harchwilio fel rhan o'r gwaith a nodir yn y cynllun archwilio hwn a chynlluniau archwilio olynol, gan arwain at fy adroddiad statudol o dan y Ddeddf yn 2025.

23 Ar gyfer 2022-23, mae fy ngwaith archwilio perfformiad yng Nghyngor Sir Ynys Môn wedi'i nodi isod.

**Arddangosyn 2: rhaglen archwilio perfformiad 2022-23**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2022-23

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Sicrwydd ac Asesu Risg | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio pellach yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.<br>Yng Nghyngor Sir Ynys Môn, mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Rheoli rhaglenni cyfalaf<br>• Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth<br>• Gosod amcanion llesiant |
| Adolygiad thematig – gofal heb ei drefnu | Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion y tu allan i'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy. |
| Adolygiad thematig (i'w gadarnhau) | I'w gadarnhau yn dilyn yr ymgynghoriad y cyfeirir ato ym **mharagraff 24** isod. |

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Adolygiad lleol | Adolygiad o wasanaethau cynllunio (sgôp yr archwiliad i'w gytuno cyn cychwyn y gwaith). |

24 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddais ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau i lywio ein rhaglen waith archwilio yn y dyfodol ar gyfer 2022-23 a thu hwnt. Yn benodol, mae'n ystyried pynciau y gellir eu datblygu drwy ein harchwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol a/neu drwy waith archwilio lleol ar draws nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Wrth i ni ddatblygu a chyflawni ein rhaglen waith yn y dyfodol, byddwn yn rhoi themâu allweddol ar waith yn ein strategaeth pum mlynedd newydd, sef:

- darparu rhaglen archwilio strategol, ddeinamig ac o ansawdd uchel; a gefnogir gan
- ddull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith o gyfathrebu a dylanwadu.

25 Lluniwyd y meysydd pwyslais posibl ar gyfer gwaith archwilio a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad yng nghyd-destun tair thema allweddol o'n dadansoddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn nhymor yr hydref 2021, sef: byd sy'n newid; y pandemig parhaus; a thrawsnewid y modd y darperir gwasanaethau. Gwahoddwyd sylwadau hefyd ar feysydd posibl ar gyfer gwaith dilynol.

26 Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen archwilio perfformiad drwy ein diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

27 Gofynnwyd i mi hefyd ymgymryd â gwaith ardystio hawliadau grant y Cyngor, yr wyf yn rhagweld y bydd yn cynnwys yr Hawliad Cymhorthdal Budd-dal Tai, y ffurflen Ardrethi Annomestig a'r ffurflen Cyfraniadau Pensiwn Athrawon.

## Swyddogaethau archwilio statudol

28 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau mewn archwiliad.

29 Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi rhoi unrhyw lwfans yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

## Ffi, y tîm archwilio a’r amserlen

30 Mae fy ffioedd a fy amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y cytunwyd arni gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd a ddisgwylir a’u bod wedi bod yn destun adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
- bod yr wybodaeth a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen y cytunwyd arni ar gyfer cyflawni archwiliadau;
- darperir ystafelloedd a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf; ac
- bod y rhaglen waith arfaethedig yr Archwiliad Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

31 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

### Y ffi

32 Fel y nodir yn ein Cynllun Ffioedd 2022-23, mae ein cyfraddau ffioedd ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu 3.7% o ganlyniad i'r angen i fuddsoddi'n barhaus mewn ansawdd archwilio ac mewn ymateb i bwysau cost cynyddol.

33 Nodir y ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2022 yn **Arddangosyn 3**. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 3.6% (ac eithrio gwaith ardystio grantiau) o'i gymharu â'ch ffi wirioneddol ar gyfer 2021.

**Arddangosyn 3: ffi archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2022, yn ôl maes gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon[2] | 199,087 | 192,000 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 103,908 | 100,390 |
| Gwaith ardystio grantiau[4] | 65,000-75,000 | 65,000-75,000 |
| Cyfanswm y ffi | 337,995 | 367,390 |

34 Bydd cynllunio'n mynd rhagddo, ac efallai y bydd angen newidiadau i fy rhaglen waith archwilio, ac felly fy ffi, os daw unrhyw risgiau newydd allweddol i'r amlwg. Ni wnaf unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda'r Cyngor.

35 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn fy Nghynllun Ffioedd 2022-23.

## Tîm archwilio

36 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio**

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

| Enw | Swydd | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 029 20320566 | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Yvonne Thomas | Rheolwr Archwilio | 029 22677830 | yvonne.thomas@archwilio.cymru |

[1] Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch chi.

[2] Yn daladwy o fis Tachwedd 2021 hyd at fis Hydref 2022.

[3] Yn daladwy o fis Ebrill 2022 hyd at fis Mawrth 2023.

[4] Yn daladwy wrth i waith gael ei wneud. Amcangyfrif yw'r ffi am 2020-21 gan nad yw'r holl waith ardystio wedi'i gwblhau.

| Enw | Swydd | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| | (Archwiliad Ariannol) | | |
| Gareth Evans | Arweinydd Archwilio (Archwiliad Ariannol) | 029 20829309 | gareth.evans@archwilio.cymru |
| Jeremy Evans | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 07825 052861 | jeremy.evans@archwilio.cymru |
| Alan Hughes | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 029 20829349 | alan.hughes@aarchwilio.cymru |

37 Mae’r unig fygythiad hysbys i annibyniaeth y mae angen i mi dynnu eich sylw ato yn ymwneud â'r Rheolwr Archwilio (Archwiliad Ariannol) gan fod ganddi ffrind agos a gyflogir gan y Cyngor. O ganlyniad, ni fydd yn ymwneud ag unrhyw waith mewn perthynas â'r gwasanaeth perthnasol.

## Amserlen

38 Dangosir y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn yn **Arddangosyn 5**.

39 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau i gyfrifon y Cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r hawliau i ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau mewn archwiliad yn gysylltiedig â hawliau etholwyr i archwilio'r cyfrifon sydd hefyd wedi'u nodi yn Neddf 2004.

**Arddangosyn 5: amserlen archwilio**

| Allbwn wedi'i gynllunio | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio 2022 | Mawrth 2022 | Ebrill 2022 |
| **Archwiliad o waith datganiadau ariannol:**<br>• Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar Ddatganiadau Ariannol | Gorffennaf i Hydref 2022 | Hydref 2022<br><br>Hydref 2022 |
| **Gwaith archwilio perfformiad:**<br>• Sicrwydd ac Asesu Risg<br>• Adolygiad Thematig – gofal heb ei drefnu<br>• Adolygiad Thematig [i'w gadarnhau]<br>• Adolygiad o wasanaethau cynllunio. | Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda'r Cyngor a byddant yn cael eu nodi yn y sesiynau briffio prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob darn o waith. | |
| **Gwaith ardystio grantiau**<br>• Budd-dal Tai<br>• Ardrethi Annomestig<br>• Rhestru cynlluniau eraill | Hydref/Gaeaf 2022 | Hydref/Gaeaf 2022 |
| **Crynodeb Archwilio Blynyddol** | Amherthnasol | Rhagfyr 2022 yn amodol ar gwblhau archwiliadau cyfrifon |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

## Diweddariad Chwarterol: 31 Mawrth 2022

### Ymgynghoriad ar y Rhaglen Waith

Ar ddechrau mis Mawrth 2022, lansiwyd ymgynghoriad gennym ar raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2022-23 a thu hwnt. Fe wnaethom ofyn am ymatebion erbyn 8 Ebrill 2022, os yn bosibl, ond byddwn yn ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl yr amser hwn fel gwybodaeth ar gyfer ein gwaith parhaus o gynllunio'r rhaglen waith. Rydym wedi cylchredeg yr ymgynghoriad yn eang ymhlith ein rhanddeiliaid.

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.** | Rhagfyr 2022 | Drafft i'w gyhoeddi Tachwedd 2022 |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2021-22 y Cyngor** | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. | Archwiliad interim:<br>• Ionawr 2022 hyd at fis Ebrill 2022.<br>Archwiliad terfynol:<br>• Mehefin 2022 hyd at fis Medi 2022. | Cwblhawyd yr archwiliad interim. |
| **Ardystio ffurflenni Grant:**<br>**Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22** | Ardystio bod y dystysgrif diwedd blwyddyn fel a ganlyn:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor ar y diwrnod gwaith olaf ym mis Mai 2022.<br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022. | Nid yw'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gan y Cyngor wedi'i gyrraedd eto. |
| **Ardystio ffurflenni Grant: Cymhorthdal Budd-dal Tai 2019-20** | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2020.<br>Dyddiad cau ardystio 31 Ionawr 2021. | Heb ei ardystio eto. Mae'r archwiliad yn dal yn anghyflawn oherwydd bod llawer o ymholiadau gan yr archwilydd yn dal i fod heb eu hateb. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Ffurflenni Grant: Cymhorthdal Budd-dal Tai 2020-21** | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2021.<br>Dyddiad cau ardystio 28 Chwefror 2022. | Heb ei ardystio eto. Mae gwaith archwilio wedi'i wneud ond ni chodwyd unrhyw ymholiadau gyda'r Cyngor, er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar flaenoriaethu eu hymateb i ymholiadau hawliadau 2019-20 yn gyntaf. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant: Cymhorthdal Budd-dal Tai 2021-22** | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2022.<br>Dyddiad cau ardystio 31 Ionawr 2023. | Derbyniwyd y ffurflen ar 29 Ebrill 2022. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant: Ardrethi Annomestig 2021-22** | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Mehefin 2022.<br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022. | Nid yw'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gan y Cyngor wedi'i gyrraedd eto. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – chwe Chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | Prosiect sy'n gyffredin i chwe Chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a adolygodd sut mae partneriaid yn cydweithio i gomisiynu gofal preswyl a nyrsio yn strategol. | Rhagfyr 2021 | Cyhoeddwyd yr adroddiad rhanbarthol terfynol ym mis Rhagfyr 2021. Cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol hefyd ym mis Rhagfyr 2021. |
| **Cynaliadwyedd Ariannol** | Project cyffredin i'r holl gynghorau lleol fydd yn asesu cynaladwyedd ariannol yng ngoleuni heriau presennol a rhai a ddisgwylir yn y dyfodol gan adeiladu ar waith a wnaed yn ystod 2019-20. | Awst 2021 | Cyhoeddwyd yr adroddiad lleol terfynol ym mis Awst 2021.<br>Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cryno Cenedlaethol ym mis Medi 2021 |

| Gwaith Archwilio perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf LlCD)** | Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau o dan LlCD o'r camau i gyflawni amcanion lles ynghyd â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn. | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Archwiliad adrodd ar welliannau** | Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. | Hydref 2021 | Cyhoeddwyd tystysgrif ym mis Awst 2021. |

| Gwaith Archwilio perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
| --- | --- | --- | --- |
| **Sicrwydd as Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.<br>Yng Nghyngor Sir Ynys Môn, mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Trefniadau hunanasesu<br>• Cynllunio adferiad<br>• Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)<br>• Cynlluniau lleihau carbon | Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | Ym mynd rhagddo |

| Gwaith Archwilio perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy** | Wrth i'r byd fynd yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol. | Hydref 2021 – Mawrth 2022.<br>Canolbwyntio ar reoli'r gweithlu ac asedau. | Gwaith maes wedi'i gwblhau, adroddiad yn cael ei ddrafftio. |
| **Adolygiad o Wella drwy Ddysgu: Budd-dal Tai** | Nodi cyfleoedd dysgu a gwella'r broses Ardystio Hawliadau Budd-dal Tai. | Ionawr i Fawrth 2022 | Anfonwyd llythyr at y Cyngor ym mis Mawrth 2022. |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Taliadau Uniongyrchol** | Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hybu'r defnydd o daliadau Uniongyrchol | Cyhoeddi Ebrill 2022 | Cyhoeddiad | Dim |
| **Gwaith dilynol ar Bobl sy'n Cysgu Allan** | Adolygiad o sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i anghenion pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig yn dilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020. | Amherthnasol | Amherthnasol | Nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn 2021-22. |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Tlodi** | Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi. | Hydref 2021 – Hydref 2022. | Gwaith maes | Ie – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Mentrau Cymdeithasol** | Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Gwaith maes | Oes – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Gwytnwch cymunedol** | Adolygiad o’r ffordd y gall awdurdodau lleol adeiladu mwy o wytnwch o fewn cymunedau | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Gwaith maes | Oes – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |

## Estyn

| Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol** | Mae Estyn wedi gweithio’n agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllawiau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL) i adlewyrchu profiadau’r pandemig. Mae Estyn wedi arolygu tri awdurdod lleol yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn. Mae adroddiadau Caerdydd a Merthyr Tudful wedi'u cyhoeddi a bydd adroddiad Torfaen yn cael ei gyhoeddi ar 18 Mai. | Mae arolygiadau GALIL i ailgychwyn o ddiwedd tymor yr hydref. | Amherthnasol |
| **Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm** | Cwricwlwm i Gymru - sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion wedi ei gyhoeddi ar 24 Mawrth. | Casglu tystiolaeth ym mis Medi/Hydref – cyhoeddwyd ym mis Mawrth | Amherthnasol |

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Gwiriad Sicrwydd Cenedlaethol 2020-21** | Mae AGC bellach wedi cyhoeddi pob llythyr gwirio sicrwydd.<br>Mae AGC wedi cyhoeddi ei adroddiad gwirio sicrwydd cenedlaethol sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion allweddol. | Cyhoeddwyd | Cyflawn |
| **Rhaglen 2022-23** | Bydd AGC yn cynnal rhaglen gylchol o wiriadau sicrwydd, gwiriadau gwella ac arolygiadau gwerthuso perfformiad. | Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | Ar waith |
| **Adolygiad cenedlaethol** | Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd. | Cyhoeddwyd | Cyflawn |
| **Datblygiad** | Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei ddull o arolygu ac adolygu awdurdodau lleol.<br><br>Bydd AGC yn ymgynghori ymhellach ynghylch ei dull gweithredu. | Mai i Fehefin 2022 | Ar waith |
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**<br>**Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020-21** | Wedi'i gwblhau | Mawrth 2021 | Cyhoeddwyd |

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** | Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023 | Cynllunio |
| Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus | Diben yr adolygiad<br><br>Cynnig sicrwydd craffu allanol a hybu gwelliant o ran ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun rhag-achos Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus<br><br>Ystyried i ba raddau mae ymarfer wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus' gan AGC a chyhoeddi Adroddiad gweithgor Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2021 gan gynnwys arweiniad i arfer gorau. | Medi 2022 | Cynllunio |
| **Trefniadau Cydarolygiad Diogelu Plant** | Dull traws-arolygiaeth.  Maes i'w bennu. | Hydref 2022 | Cynllunio |

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22** | Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 2020-21, mae cynlluniau yn mynd ymlaen ar gyfer yr adroddiad nesaf. | 2022-23 | Cynllunio |
| **Gwiriad Sicrwydd Cafcass** | Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei dull o arolygu ac adolygu Cafcass Cymru. | 2022 | Cynllunio |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers 1 Ebrill 2021

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Chwefror 2022 |
| Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (gan gynnwys offeryn data) | Ionawr 2022 |
| Comisiynu cartrefi gofal ar gyfer Pobl Hŷn | Rhagfyr 2021 |
| Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru | Tachwedd 2021 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Gofalu am y Gofalwyr?<br>Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19 | Hydref 2021 |
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Medi 2021 |
| Ffeithlun cyfrifon cryno'r GIG | Medi 2021 |
| Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus[1] | Medi 2021 |
| Adfywio Canol Trefi | Medi 2021 |
| Cyllid myfyrwyr | Awst 2021 |
| Offeryn data cyllid y GIG 2020-21 | Mehefin 2021 |
| Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru | Mehefin 2021 |
| Trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg– dilyniant | Mai 2021 |
| Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Mai 2021 |

[1] Cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi. Dros y chwe wythnos a ganlynodd, cyhoeddwyd pum sylwebaeth sector byr: Darlun o lywodraeth leol,Darlun o ofal iechyd, Darlun o ofal cymdeithasol, Darlun o ysgolion, Darlun o addysg uwch ac addysg bellach.

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Yn ôl eich Doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol | Ebrill 2021 |
| Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | Ebrill 2021 |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)[2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Sylwebaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru | I'w gadarnhau – mae cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd |
| Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth | Ebrill 2022 |
| Trefniadau ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol | Ebrill 2022 |
| Llywodraeth Cymru yn pennu amcanion llesiant | Mai 2022 |

[2] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn inni ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posibl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Ymateb i COVID ac adferiad/rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – cymorth i'r trydydd sector | Mai 2022 |
| Diwygio'r cwricwlwm | Mai 2022 |
| Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwebaeth ar ofal cynlluniedig | Mai 2022 |
| Dilyniant System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru | Mai 2022 |
| Gwasanaethau orthopedig | Mai/Mehefin 2022 |
| Diweddariad offeryn data cyllid y GIG | Mehefin 2022 |
| Gweithlu Llywodraeth Cymru | Mehefin 2022 |
| Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb | Gorffennaf 2022 |
| Newid hinsawdd – adolygiad cychwynnol | Gorffennaf 2022 |
| Seilwaith band eang/cynhwysiant digidol | Hydref 2022 |
| Rheoli perygl llifogydd | Hydref 2022 |
| Ymateb i COVID ac adferiad/rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – arall | I'w gadarnhau |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Tai fforddiadwy | I'w gadarnhau |

## Digwyddiadau a chyhoeddiadau y Gyfnewidfa Arfer Da sydd i ddod

| Teitl | Dyddiad disgwyliedig cyhoeddi/y digwyddiad |
|---|---|
| Darpariaeth Taliadau Uniongyrchol – gweminar yn trafod yr adroddiad sydd i ddod ar Ddarpariaeth Taliadau Uniongyrchol a sut y gallant fod yn rhan allweddol o weithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 6 Ebrill 2022 – cyhoeddir recordiad yn dilyn y digwyddiad. |
| Digwyddiad Newid Hinsawdd - (Teitl i'w gadarnhau)<br>Gweminar yn trafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'n hadolygiad cychwynnol o drefniadau cyrff cyhoeddus i ymateb i dargedau lleihau allyriadau carbon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030. | 19 May 2022 (amodol) |
| Safbwyntiau COVID: Cyfres o sgyrsiau wedi eu recordio yn dysgu sut mae sefydliadau wedi addasu i'r cyfnod estynedig o ansicrwydd yn dilyn yr argyfwng COVID cychwynnol | Arfer Da \| Archwilio Cymru |

## Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

| Teitl | Cyhoeddiad |
|---|---|
| Seibergadernid – blwyddyn ymlaen | 9 Chwefror 2022 |
| Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rifau (offeryn data cynaladwyedd ariannol llywodraeth leol) | 3 Chwefror 2022 |
| Galwad am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd | 2 Chwefror 2022 |
| Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau (adeiladu gwytnwch cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau) | 14 Ionawr 2022 |
| Ysgolion Cymru yn wynebu her frawychus y gyfradd genedigaethau isaf mewn 100 mlynedd | 21 Rhagfyr 2021 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Marc Jones

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyfarwyddwr Adnoddau

(drwy e-bost)

**Cyfeirnod:** 2887A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** 11 Ebrill 2022

Annwyl Marc

# Cyngor Sir Ynys Môn – Cymhorthdal budd-dal tai

Gan fod cais y cyngor am gymhorthdal budd-dal tai 2018-19 wedi'i ardystio'n ddiweddar a hithau'n ddwy flynedd ers i Archwilio Cymru gymryd cyfrifoldeb am archwilio'r hawliadau cymhorthdal, roeddwn i'n tybio ei bod yn bryd ysgrifennu atoch i roi ein safbwynt ar y sefyllfa bresennol.

Fel y gwyddoch chi, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno cais am gymhorthdal blynyddol erbyn diwedd mis Ebrill ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r hawliad yn destun archwiliad fel arfer erbyn 30 Tachwedd y flwyddyn honno. Mae'r hawliad yn gofyn am ad-daliad o gostau a ysgwyddir gan y Cyngor wrth dalu budd-dal tai i gefnogi preswylwyr ar incwm isel, sy'n rhentu llety cyngor neu lety preifat. Mae cynghorau fel arfer yn derbyn cymhorthdal o 100% ar gyfer budd-dal tai â dalwyd yn gywir, er bod y gyfradd cymhorthdal ar gyfer ad-dalu budd-dal a dalwyd yn anghywir yn llai. Os bydd cyfanswm y gordaliadau budd-daliadau oherwydd gwallau a wnaed gan y Cyngor yn fwy na'r trothwyon a ganiateir, ni fydd y Cyngor yn cael ei ad-dalu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a bydd yn rhaid iddo ariannu'r costau hynny ei hun.

Yng nghyngor Ynys Môn, mae'r cais am gymhorthdal archwiliedig wedi'i gyflwyno i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn sylweddol hwyrach na'r dyddiad cau a bennwyd am nifer o flynyddoedd. Mae gwaith archwilio a wnaed gan Archwilio Cymru (a Deloitte gynt) wedi nodi nifer o wallau yn y broses o lunio hawliadau ac wrth brosesu

achosion sylfaenol o fudd-dal tai. Wrth aros am yr hawliad archwiliedig, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi atal taliadau terfynol sylweddol sydd â chanlyniad ariannol i'r Cyngor. Mae'r gwaith ychwanegol y mae'n ofynnol i archwilwyr ei wneud yn golygu bod y ffioedd archwilio a godir ar y Cyngor yn llawer uwch nag a welir yn y rhan fwyaf o gynghorau eraill.

Mae'r tabl isod yn dangos y dyddiad y mae pum cais cymhorthdal diwethaf y Cyngor wedi'u hardystio, gan dynnu sylw at y ffaith mai prin yw'r cynnydd a wnaed i sicrhau bod yr archwiliad yn gyfredol ac ar yr un llinell amser â phob Cyngor arall yng Nghymru.

| **Hawliad Cymhorthdal** | **Dyddiad Cau Ardystio** | **Dyddiad Ardystio** |
|---|---|---|
| 2016-17[1] | 30 Tachwedd 2017 | 29 Tachwedd 2019 |
| 2017-18 | 30 Tachwedd 2018 | 11 Chwefror 2021 |
| 2018-19 | 30 Tachwedd 2019 | 15 Tachwedd 2021 |
| 2019-20 | 31 Ionawr 2021[2] | Heb ei ardystio eto |
| 2020-21 | 28 Chwefror 2022[2] | Heb ei ardystio eto |

[1] Cynhaliwyd yr archwiliad o gais am gymhorthdal 2016-17 gan Deloitte.

[2] Cafodd y dyddiad cau ar gyfer ardystio ei ymestyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gydnabod effaith Covid-19.

Yn y llythyr hwn rwyf wedi manteisio ar y cyfle i:

- Fyfyrio ar yr archwiliad o gais am gymhorthdal 2018-19.
- Cadarnhau sefyllfa bresennol archwiliadau o geisiadau cymhorthdal 2019-20 a 2020-21.
- Ystyried effaith gwallau ardystio a phrosesu hawliadau.
- Argymell camau i'w cymryd gan y cyngor i wella ansawdd yr hawliad cymhorthdal ac i glirio'r ôl-groniad o ardystiadau.

Byddwch yn gyfarwydd â llawer o gynnwys y llythyr hwn, ar ôl trafod gyda ni ein pryderon yn flaenorol ynghylch capasiti'r Cyngor i ymateb i ymholiadau'r archwilydd a chwblhau profion estynedig.

Rydych hefyd wedi derbyn llythyrau eglurhaol 2017-18 a 2018-19 a rhestrau diwygio a adroddwyd i'r Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n manylu ar yr addasiadau cymhorthdal sydd eu hangen oherwydd gwallau prosesu hawliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliadau. Mae'r llythyrau hyn yn rhoi cipolwg ar y math o wallau a nodwyd a dylent alluogi'r Cyngor i gymryd camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd gwendid a nodwyd er mwyn eu hatal rhag digwydd eto mewn hawliadau cymhorthdal yn y dyfodol.

## Cais am Gymhorthdal Ardystiedig 2018-19

Cafodd y cais am gymhorthdal 2018-19 ei ardystio ym mis Tachwedd 2021, a'r archwiliad yn cael ei gynnal dros gyfnod hir oherwydd nifer y gwallau, oedi wrth ymateb i ymholiadau archwilydd a phrofion archwilio ychwanegol.  Oherwydd gwerth gordaliadau gwallau Awdurdodau Lleol (ALl) a nodwyd yn ystod yr archwiliad, cafwyd cosbau cymhorthdal a gostyngwyd y swm a oedd yn ddyledus gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i'r Cyngor i ddechrau o £56,154.

Arweiniodd gwaith ychwanegol a wnaed ar gais yr Adran Gwaith a Phensiynau at golli cymhorthdal pellach o £58,738, gan fod cyfanswm gwerth gordaliadau gwallau ALl yn fwy na'r trothwy uchaf ar gyfer hawl cymhorthdal llawn neu lai.

Felly, cyfanswm y golled i'r Cyngor oherwydd gwallau prosesu a briodolwyd i 'Gwall Awdurdod Lleol' ar gyfer 2018-19 oedd £114,892.

## Hawliadau cymhorthdal 2019-20 a 2020-21

Rydym yn parhau i fod ymhell o allu adrodd ar ein canfyddiadau o archwiliad 2019-20 ac ardystio'r hawliad. Rydym wedi wynebu oedi sylweddol cyn derbyn ymatebion i'n hymholiadau, a llawer o ymatebion yn parhau i fod heb eu hateb, gan gynnwys rhai i geisiadau a wnaethom yn wreiddiol yn 2020.

Er ein bod wedi gwneud gwaith archwilio ar hawliad 2020-21, nid ydym eto wedi codi unrhyw ymholiadau gyda'ch tîm er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar ymateb i ymholiadau a chynnal profion ychwanegol sy'n ofynnol mewn perthynas â hawliad 2019-20.

Mae cryn dipyn o waith i'w gwblhau o hyd ar gais 2020-21.

## Effaith oedi wrth ardystio a phrosesu gwallau

Mae sawl canlyniad i oedi wrth ardystio a gwallau prosesu niferus:

- Gall hawliadau cymhorthdal nad ydynt wedi'u hardystio'n amserol olygu bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cosbi'r Cyngor drwy atal cyfran o'r taliadau cymhorthdal sy'n ddyledus i'r Cyngor. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar gyllid y Cyngor a gall fod yn niweidiol i lif arian ac enw da.
- Mae oedi wrth ardystio yn cynyddu'r amser rhwng adnabod gwallau ac effaith unrhyw fesurau adferol a gymerwyd i gywiro gwallau o gael eu hadlewyrchu mewn hawliadau cymhorthdal yn y dyfodol – ym mis Ebrill 2022 bydd y Cyngor yn cyflwyno ei gais am gymhorthdal 2021-22 heb gael cyfle i fynd i'r afael â materion a nodwyd ar hawliadau cymhorthdal 2019-20 a 2020-21. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o gamgymeriadau mynych ar hawliadau yn y dyfodol.
- Mae'r dull cymhorthdal yn cydnabod y bydd rhai gwallau yn bodoli yn y system ac yn caniatáu ar gyfer hyn. Fel y digwyddodd gyda hawliad 2018-19, pan fydd gwerth gwallau yn fwy na chanran benodol gwariant budd-daliadau cyffredinol y Cyngor, bydd cosbau'n cael eu hysgwyddo, a gostyngiad yn y cymhorthdal a hynny am gost uniongyrchol i'r Cyngor a threthdalwyr lleol.
- Pan nodir gwallau, mae hyn fel arfer yn gofyn am gynnal profion ychwanegol gan y Cyngor a phrofion adolygu ac ailberfformio yn cael eu cwblhau gan archwilwyr. Rhaid cwblhau profion ychwanegol hefyd mewn perthynas ag unrhyw gamgymeriad ar gais y flwyddyn ganlynol am gymhorthdal, a all gymryd llawer o amser. Os na chymerir camau mewn ymateb i wallau a nodwyd, mae'n fwy tebygol y bydd yr un camgymeriad yn cael ei ailadrodd yn y dyfodol, gan

arwain at waith ychwanegol ac o bosibl arwain at golli cymhorthdal y gellir ei atal. O'r gwaith rydym wedi'i wneud ar hawliadau cymhorthdal y Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nid ydym yn sicr ar hyn o bryd bod proses effeithiol ar waith i leihau a dileu gwallau o hawliadau budd-dal tai presennol ac yn y dyfodol.

- Mae archwilio hawliadau cymhorthdal dros gyfnod hir yn aneffeithlon. Mae oedi wrth ymateb yn ddigonol i geisiadau am wybodaeth yn aml yn golygu bod yr archwilydd yn gorfod ail-ymgyfarwyddo â hen waith, creu dyblygu diangen ac o bosibl arwain at archwilydd gwahanol yn gorfod cwblhau'r gwaith. Bydd hyn yn cynyddu'r ffi archwilio a godir ar y Cyngor am gyflawni'r archwiliad. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn ysgwyddo ffioedd archwilio uwch na'r rhai a godir fel arfer ar gyrff a archwilir am waith archwilio budd-dal tai.

**Camau sy'n cael eu cymryd gan y Rheolwyr i alluogi cwblhau gwaith archwilio cymhorthdal yn brydlon yn unol â therfyn amser ardystio'r Adran Gwaith a Phensiynau**

Disgwylir i gais am gymhorthdal 2021-22 gael ei gyflwyno ddiwedd mis Ebrill 2022. Yn ein barn ni, oni wneir newidiadau allweddol i wella cywirdeb prosesu hawliadau a mesurau a weithredir i reoli gofynion yr archwiliad cymhorthdal yn effeithiol, bydd y Cyngor yn parhau i fod mewn perygl o golled sylweddol o gymhorthdal a niwed i enw da o hawliadau a gyflwynir yn hwyr.

Yn **Atodiad 1**, rwyf wedi gwneud argymhellion a gynlluniwyd i wella'r sefyllfa bresennol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech drefnu i'r llythyr hwn gael ei gyflwyno fel eitem ar yr agenda i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ynghyd â'r ymateb gan reolwyr i'r argymhellion.

Yn gywir



Derwyn Owen

Cyfarwyddwr Ymgysylltu

# Atodiad 1

| **A1. Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â materion capasiti hirsefydlog er mwyn gallu archwilio ac ardystio hawliadau cymorthdaliadau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nid oes gan y Cyngor gapasiti na dealltwriaeth fanwl o'r cais am gymhorthdal budd-dal tai i alluogi'r gwasanaeth i ymateb i ymholiadau archwilio yn effeithiol ac yn effeithlon.<br><br>Ar hyn o bryd, dim ond un swyddog sydd yn y Cyngor sydd â gwybodaeth fanwl am gymhorthdal. Mae gan y swyddog hwn gyfrifoldebau eraill hefyd sy'n golygu nad yw yn aml yn gallu ymateb i ymholiadau archwilio o fewn amserlen resymol oherwydd galwadau cystadleuol ar ei amser.<br><br>Yn ogystal â hyn, nid oes gan y Cyngor y capasiti ar hyn o bryd i ymateb yn effeithiol i faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad, i gynnal dadansoddiad pellach o'r llwyth achosion o fudd-daliadau i gywiro gwallau, nac i ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff i gyflawni gwelliannau. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o gamgymeriadau cylchol, gwaith ychwanegol sy'n ofynnol gan y Cyngor a'r tîm archwilio ac fel y digwyddodd gyda hawliad 2018-19, colli cymhorthdal sylweddol. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhellion** | • Dylai'r Cyngor gynyddu capasiti ac ymwybyddiaeth o'r broses hawlio ac archwilio cymhorthdal budd-dal tai.<br>• Dylai'r Cyngor nodi cynllun gweithredu clir y gellir ei gyflawni i glirio'r ôl-groniad o archwiliadau cymhorthdal ac ymholiadau archwilio. |
| **Manteision gweithredu'r argymhellion** | • Llai o ddibyniaeth ar un unigolyn a lledaenu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a sgiliau ar draws y gwasanaeth.<br>• Bydd ymwybyddiaeth ychwanegol o gapasiti a chymhorthdal yn galluogi'r Cyngor i ymateb i ymholiadau archwilio o fewn amserlen resymol a chwblhau archwiliadau o fewn amserlen ardystio'r Adran Gwaith a Phensiynau. |

| **A1. Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â materion capasiti hirsefydlog er mwyn gallu archwilio ac ardystio hawliadau cymorthdaliadau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.** | |
|---|---|
| | • Mae cwblhau archwiliadau'n brydlon yn lleihau'r risg y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn atal cymhorthdal budd-daliadau gan y Cyngor oherwydd oedi wrth ardystio'r cais am gymhorthdal. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Un swyddog sy'n bennaf gyfrifol am gwblhau'r cais am gymhorthdal, ac mae'r cymhorthdal yn un o nifer o ddyletswyddau pwysig y mae'r swyddog yn ymgymryd â hwy ac ar rai adegau yn ystod y flwyddyn, rhaid rhoi blaenoriaeth i'r dyletswyddau eraill.<br><br>Rydym eisoes wedi cyflogi staff asiantaeth i ategu'r staff parhaol i helpu i gwblhau'r cais am gymhorthdal ac i gynorthwyo gyda'r archwiliad. Yn anffodus, er gwaethaf nifer o ymdrechion, rydym wedi bod yn aflwyddiannus wrth recriwtio rhywun sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol.<br><br>Mae'r Rheolwr Budd-daliadau wedi dychwelyd yn ddiweddar o gyfnod o secondiad gyda Llywodraeth Cymru a bydd hyn yn ychwanegu at y capasiti o fewn y Tîm.<br><br>Rydym yn gweithio gydag Archwilio Cymru i gytuno ar amserlen gyraeddadwy ar gyfer cwblhau'r archwiliadau sy'n weddill gyda'r nod o gwblhau'r archwiliad 19/20 a 20/21 erbyn yr Hydref. Bydd hyn wedyn yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa i gwblhau'r archwiliad 21/22 erbyn dechrau 2023 a dychwelyd y Cyngor i'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer yr archwiliad 22/23 h.y. ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2023 |
| **Dyddiad gweithredu** | Cychwyn ym mis Mehefin 22 gyda chwblhau'r holl hawliadau sy'n weddill ynghyd â'r hawliadau ar gyfer 21/22 a 22/23 erbyn Tachwedd 2023 |

| A2. Dylid cyflwyno mesurau rheoli i gywiro gwallau a nodwyd a sefydlu diwylliant o ddysgu a datblygu er mwyn gwella cywirdeb prosesu. | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae natur y dull archwilio cymhorthdal (fel y'i nodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau), yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wallau a nodwyd gael eu hadolygu a'u profi'n fanylach yn ystod y flwyddyn archwilio ac eto y flwyddyn ganlynol.<br>Mae canfyddiadau o'n gwaith archwilio cymhorthdal yn y cyngor yn dangos nad yw achos sylfaenol gwallau yn derbyn sylw, ac mae gwallau o'r un natur neu natur debyg yn aml yn cael eu hailadrodd o un flwyddyn i'r llall.<br>Mae profion estynedig ar wallau yn aml yn nodi nifer o wallau eraill o'r un natur, sy'n dangos bod gwallau tebyg yn gyffredin ar draws y llwyth achosion budd-daliadau.<br>Nid yw prosesau rheoli ansawdd yn effeithiol ar hyn o bryd ac nid ydynt yn nodi nac yn cywiro gwallau prosesu hawliadau.<br>Mae'n ymddangos i ni fod y system Budd-daliadau yn destun gormod o amser segur yn ystod oriau gwaith er mwyn hwyluso uwchraddio'r system.  Ar yr adegau hyn, nid oes modd prosesu hawliadau, ac ni all y Cyngor ymateb yn effeithiol i unrhyw ymholiadau a allai fod gan hawlwyr a landlordiaid. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhellion** | • Mae'r Cyngor yn gweithredu proses i ymateb yn briodol i unrhyw wallau a nodwyd yn ystod yr archwiliad cymhorthdal, neu fel arall, er mwyn sicrhau bod gwallau yn y dyfodol yn cael eu lleihau.<br>• Mae'r Cyngor yn adolygu mathau penodol o hawliadau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol, i fodloni eu hunain bod hawliadau'n cael eu prosesu'n gywir a gyda dosbarthiad cymhorthdal cywir:<br>– Achosion nad ydynt yn rhai HRA<br>– Achosion myfyrwyr<br>– Cynlluniau wedi'u haddasu<br>– Achosion credyd treth<br>– Cafwyd adolygiad cyffredinol i sicrhau bod digon o dystiolaeth ddogfennol wedi dod i law.<br>• Mae'r Cyngor yn sicrhau bod y staff yn cael gwybod am wallau a bod unrhyw anghenion dysgu a datblygu a nodwyd yn cael sylw'n brydlon.  Dylai'r Cyngor hefyd ystyried a oes |

| A2. Dylid cyflwyno mesurau rheoli i gywiro gwallau a nodwyd a sefydlu diwylliant o ddysgu a datblygu er mwyn gwella cywirdeb prosesu. | |
|---|---|
| | unrhyw themâu neu batrymau penodol yn y gwallau sy'n cael eu gwneud.<br>• Dylid gweithredu proses rheoli ansawdd effeithiol i nodi a chywiro gwallau.<br>• Dylid diweddaru'r broses o uwchraddio'r system a'i chymhwyso lle bo'n bosibl y tu allan i oriau swyddfa er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar gwsmeriaid, a staff sy'n gyfrifol am brosesu hawliadau. |
| **Manteision gweithredu'r argymhellion** | • Lleihau'r risg o golli cymhorthdal i'r Cyngor drwy leihau gwallau.<br>• Bydd llai o wallau yn gofyn am lai o brofion ychwanegol a'r tebygolrwydd o archwiliad mwy effeithlon a ffi archwilio is.<br>• Lefel uwch o wasanaeth i gwsmeriaid sy'n aml yn agored i niwed ac a ddylai gael y dyfarniad cywir o fudd-dal tai.<br>• Dylai darparu hyfforddiant priodol (ffurfiol neu anffurfiol) sicrhau bod sgiliau, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff yn gyfredol a bod llai o gamgymeriadau'n cael eu gwneud.<br>• Bydd y Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi a mynd i'r afael â materion ansawdd a chywirdeb yn gynharach.<br>• Bydd lleihau amser segur y system yn helpu i leihau'r pwysau ar hawliadau prosesu staff a all, yn eu tro, arwain at wallau. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r oedi cyn cwblhau'r archwiliadau, yn arwain at oedi wrth nodi gwallau ac o ganlyniad gall gwallau barhau am nifer o flynyddoedd. Gyda hyn mewn golwg, bwriedir ailstrwythuro'r Tîm Refeniw a Budd-daliadau gyda chynnydd yn yr adnoddau yn y Tîm Perfformiad. Bydd yr adnoddau ychwanegol hyn yn cael eu cyfeirio at gynyddu gwaith sicrhau ansawdd yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhaglen sicrhau ansawdd yn mynd i'r afael â phwyntiau bwled 1 i 4 yn yr argymhelliad uchod. |

| **A2. Dylid cyflwyno mesurau rheoli i gywiro gwallau a nodwyd a sefydlu diwylliant o ddysgu a datblygu er mwyn gwella cywirdeb prosesu.** | |
|---|---|
| | Mae'r Rheolwr Budd-daliadau wedi dychwelyd o gyfnod o secondiad a byddwn yn parhau â'r trefniadau dros dro a fydd yn caniatáu i'r Rheolwr Budd-daliadau fynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilwyr a gwella systemau rheoli ansawdd a hyfforddiant staff drwy ganolbwyntio ar y gwallau penodol sydd wedi codi o'r archwiliadau, ond hefyd i fwydo materion a nodwyd gan y gwaith sicrhau ansawdd i mewn i raglen hyfforddi fwy cynhwysfawr i staff.<br><br>Bydd y cytundeb meddalwedd yn symud yn fuan i feddalwedd fel gwasanaeth, lle bydd y feddalwedd yn cael ei rhedeg yn y Cwmwl ac nid ar weinydd penodedig y Cyngor. O ganlyniad, bydd uwchraddio'n cael ei redeg gan y cwmni meddalwedd ac nid y Cyngor a bydd hyn yn sicrhau bod uwchraddiadau'n cael eu gweithredu y tu allan i oriau a bydd hefyd yn rhyddhau aelod allweddol o staff i wneud gwaith arall, yn hytrach na gweithredu a phrofi uwchraddio. |
| **Dyddiad gweithredu** | Eisoes wedi dechrau ond mae cwblhau'n gysylltiedig â chanfyddiadau'r archwiliadau sy'n weddill ac yn y dyfodol nes bod y sefyllfa'n dychwelyd i'r amserlen ddisgwyliedig a chwblhau'r ailstrwythuro arfaethedig.<br><br>Anelu at sefydlu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr erbyn mis Ebrill 2023.<br><br>Bydd y newid i meddalwedd fel gwasanaeth yn digwydd ar 25 Medi 2022 |

**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)/**
**DIRECTOR OF FUNCTION (RESOURCES)**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn  Isle of Anglesey
LL77 7TW

ffôn/tel: (01248) 752601 ffacs/fax:

Gofynnwch am – Please ask for: Mr R M Jones

E-bost – E-mail: rmjfi@ynysmon.llyw.cymru
Ein Cyf – Our Ref:
Eich Cyf – Your Ref: 2887A2022

13 Mai 2022

Mr Derwyn Owen,
Cyfarwyddwr Ymgysylltu,
Archwilio Cymru,
24 Cathedral Road,
CAERDYDD.
CF11 9LJ.

Annwyl Derwyn,

**Parthed: Cymhorthdal Budd-dal Tai - Cyngor Sir Ynys Môn**

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r uchod, sy'n crynhoi'r sefyllfa mewn perthynas â'r cymhorthdal ac sydd hefyd yn cofnodi'r trafodaethau niferus a gefais gyda chi a'ch staff ynglŷn â'r mater hwn.

Nid wyf yn anghytuno ag elfennau ffeithiol eich llythyr, ond credaf y dylwn roi'r llythyr mewn rhyw fath o gyd-destun i geisio egluro pam ein bod yn y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw.

Yn amlwg, dechreuodd y problemau cyn i chi ddod yn gyfrifol am archwilio'r hawliadau cymhorthdal yn 2016/17. Hyd at 2016/17, roedd gan yr Archwilwyr ddealltwriaeth dda o sut i archwilio hawliadau cymhorthdal, ynghyd â dealltwriaeth dda o systemau a gweithdrefnau'r Cyngor, ac roedd hyn yn eu galluogi i gwblhau'r archwiliad o fewn yr amserlen ofynnol a darparu adborth amserol i'r Cyngor er mwyn iddo allu mynd i'r afael ag unrhyw gamgymeriadau a nodwyd i osgoi unrhyw broblemau gyda hawliadau dilynol. Yn anffodus, oherwydd nifer o ffactorau, ni lwyddodd yr archwilwyr a benodwyd i archwilio hawliadau 2016/17 a 2017/18 i gwblhau'r gwaith mewn da bryd drwy ddehongli'r canllawiau archwilio yn bragmatig. Roeddent hefyd yn disgwyl i staff y Cyngor ddarparu ychwaneg o wybodaeth cyn eu bod yn cychwyn y gwaith archwilio, ac nid oedd gan y Cyngor yr adnoddau i wneud hyn. Oherwydd y ffactorau hyn, cafwyd oedi wrth gwblhau'r archwiliadau ar gyfer 2016/17 a 2017/18. Yn y diwedd, oherwydd y problemau a wynebom fel Cyngor, bu'n rhaid i Archwilio Cymru gymryd cyfrifoldeb dros y gwaith o archwilio hawliadau 2017/18 a 2018/19. Arweiniodd hyn at oedi pellach, gan y bu'n rhaid i'ch staff ddechrau ar y broses o archwilio'r ddwy flynedd dan sylw o'r dechrau fwy neu lai. Cynyddodd hyn lwyth gwaith yr unig aelod o staff sy'n delio â hawliadau cymhorthdal y Cyngor, ac fe arweiniodd hyn at oedi o ran canfod y camgymeriadau y cyfeiriwch atynt a gallu'r Cyngor i ymateb iddynt. Pe byddai'r archwiliadau yn 2016/17 a 2017/18 wedi cael eu cwblhau i'r safon flaenorol, credwn na fyddai'r problemau wedi bod mor sylweddol ac y mae.

Mae'r canllawiau archwilio yn berthnasol i bob awdurdod ac nid yw lefel y profion yn gysylltiedig â maint yr Awdurdod. Mae hyn yn creu baich sylweddol i gynghorau bach fel Ynys Môn, gan nad yw lefel y profion yn gymesur â'r risg. Er fy mod yn deall bod Archwilio Cymru'n cynnal archwiliadau yn unol â chanllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), mae angen eu diweddaru ac rydym o'r farn y dylai Archwilio Cymru bwyso ar y DWP i adolygu'r canllawiau fel bod archwiliadau'n ystyried y risg, yn hytrach na defnyddio un dull sy'n gwneud y tro i bawb.

**Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith./**
**You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages**

Nodwch bod y gwallau a briodolir i'r Awdurdod Lleol werth £114,892, ond mae'n rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun hawliadau gwerth cyfanswm o £18,544,166 ar gyfer 2018/19, sef cyfradd gwallau o 0.6%. Derbyniaf bod hyn y golled y bydd yn rhaid i drethdalwyr Ynys Môn ei hysgwyddo a bod rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i leihau'r golled.

Rydym wedi ceisio blaenoriaethu'r gwaith o gwblhau'r hawliadau cymhorthdal a byddwn yn parhau i wneud hyn, ond mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn anodd iawn yn sgil y cyfrifoldebau ychwanegol a roddwyd ar y tîm gan Lywodraeth Cymru (taliadau prydau ysgol am ddim, taliadau hunan-ynysu, grantiau costau byw ac ati.), ymddeoliad y Rheolwr Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau a secondiad y Rheolwr Budd-daliadau i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r anawsterau a ddaeth yn sgil y rheidrwydd ar staff i weithio gartref. Rydym hefyd wedi cael trafferth dod o hyd i staff asiantaeth ychwanegol, gyda'r profiad angenrheidiol, i ddod i weithio i Ynys Môn ar sail tymor byr. Fel y nodwch yn eich llythyr, mae hyn wedi rhoi baich ychwanegol ar un aelod o staff, sydd â nifer o ddyletswyddau eraill y mae'n rhaid eu blaenoriaethu ar adegau.

Wrth symud i'r flwyddyn ariannol newydd, bydd y llwyth gwaith sy'n cynyddu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn lleihau, mae'r Rheolwr Budd-daliadau i fod y ddychwelyd o'i secondiad a, chyda lwc, gan bod y sefyllfa Covid yn gwella, fe all staff ddychwelyd i'r swyddfa a bydd llai o ofyniad gan Lywodraeth Cymru i roi cynlluniau ychwanegol ar waith.

Cyn mynd i'r afael â'r argymhellion tymor hwy a nodir yn Atodiad 1, hoffwn nodi y daethom o hyd i aelod staff a fydd yn cynorthwyo'r Rheolwr Perfformiad a Datblygu i gwblhau'r wybodaeth angenrheidiol rydych ei angen, ac rwyf yn gobeithio y bydd hyn yn ein galluogi i gwblhau'r 2 archwiliad sydd heb eu cwblhau erbyn diwedd yr haf / dechrau'r hydref ac y gallwn ddechrau ar yr archwiliad ar gyfer 2021/22 yn fuan wedi hynny.


Yn y tymor hwy, rydym yn y broses o ailstrwythuro'r Tîm Refeniw a Budd-daliadau, a byddwn yn cryfhau'r Tîm Perfformiad a Datblygu drwy gynyddu capasiti, nid yn unig er mwyn delio gydag archwiliadau, ond hefyd er mwyn ymgymryd ag ychwaneg o waith sicrhau ansawdd drwy gydol y flwyddyn, gyda'r nod o leihau gwallau prosesu.

Yn dilyn dychweliad y Rheolwr Budd-daliadau o'i secondiad, gallwn ganolbwyntio ar adolygu gwallau a rhoi rhaglen hyfforddi gyffredinol ar waith ar gyfer y staff a thargedu hyfforddiant i fynd i'r afael â'r gwallau penodol a nodwyd. Er y bydd y gwaith hwn yn rhy hwyr i ddylanwadu ar hawliad 2021/22, rydym yn gobeithio dechrau gweld mantais y gwaith hwn yn 2022/23 ac, i raddau helaethech, yn hawliad 2023/24. Os gallwn leihau nifer y gwallau'n sylweddol, yna gallwn leihau nifer y profion archwilio a llwyth gwaith staff Archwilio Cymru a staff y Cyngor, yn ogystal â lleihau'r ffioedd archwilio a lefel y chymhorthdal a gollir.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi a'ch staff am ddelio â'r hawliadau cymhorthdal yn broffesiynol, bragmatig ac ymarferol ers i chi ymgymryd â'r gwaith ac, unwaith y byddwn wedi delio â'r ôl-groniad presennol, gobeithiaf y gallwn roi proses amserol ar waith a lleihau lefel y profion archwilio fydd eu hangen.

Trefnaf fod eich llythyr a'r ymateb hwn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2022.

Yn gywir,



**MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**

**Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith./**
**You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 29 Mehefin 2022 |
| **Pwnc:** | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2022-23 f2 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2022-23 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |

## Cyflwyniad

1. Mae Blaenraglen Waith (f2) ynghlwm yn Atodiad A.

2. Mae'r rhaglen wedi'i ddatblygu gan ystyried cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r newidiadau canlyniadol i cylch gorchwyl y Pwyllgor.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2022-23 yn bodloni cyfrifoldebau y Pwyllgor yn unol â amodau gorchwyl y Pwyllgor.

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2022-23 (f2)

| Swyddogaeth Graidd | Mehefin 2022 | Gorffennaf 2022 | Medi 2022 | Rhagfyr 2022 | February 2023 | Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2021-22 (3.4.8.3.1) | | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/ 3) | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio 2021-22 (3.4.8.4.4) | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2021-22 (3.4.8.5.1/2/3/4) | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2023-24) (3.4.8.5.3/4) | |

Tudalen 122

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2022-23 (f2)

| Swyddogaeth Graidd | Mehefin 2022 | Gorffennaf 2022 | Medi 2022 | Rhagfyr 2022 | February 2023 | Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2021-22 (3.4.8.7.1)<br><br>~~Adroddiad Blynyddol Derbyn Polisi 2021-22 (3.4.8.7.1)~~<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2021-22 (3.4.8.7.1)<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2021-22 (3.4.8.7.1) | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion (3.4.8.7.1) | | Adroddiad Yswiriant Blynyddol (3.4.8.7.1) |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | |

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2022-23 (f2)

| Swyddogaeth Graidd | Mehefin 2022 | Gorffennaf 2022 | Medi 2022 | Rhagfyr 2022 | February 2023 | Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-22 (3.4.8.9.4)<br><br>Adroddiad Sylwadau, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd (3.4.8.9.2/3) | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021-22 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/ 14/15) (3.4.8.6)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022 (3.4.8.11.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2022-23 (3.4.8.11.1/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | | | |

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2022-23 (f2)

| Swyddogaeth Graidd | Mehefin 2022 | Gorffennaf 2022 | Medi 2022 | Rhagfyr 2022 | February 2023 | Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Cwynion a Chywthu Chwiban 2021-22 (3.4.8.14.1/2) | | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | ~~Adolygiad o'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3)~~ | **Adolygiad o'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3)** | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[1] | | | | | | |

Tudalen 125

[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

This page is intentionally left blank